

Adroddiad ar adolygiad yn glŷn â:

Mr J a'r ddarpariaeth o Wasanaethau
Iechyd Meddwl, yn dilyn Lladdiad a
gyflawnwyd ym mis Mawrth 2010

Medi 2013

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Heol y Fan
CAERFFILI
CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 029 20 928850
Ebost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 029 20 928877
Gwefan: www.hiw.org.uk



Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

Cynnwys

Pennod 1	Y Dystiolaeth	1
Pennod 2	Y Canfyddiadau	24
Pennod 3	Argymhellion	41
Atodiad A		45
Atodiad B		47
Atodiad C		49
Atodiad CH		53

Pennod 1 Y Dystiolaeth

Crynodeb o'r Drosedd Berthnasol

1.1 Rywbryd rhwng 28 Chwefror a 2 Mawrth 2010, ymosododd Mr J ar Mrs A yn ei chartref yn ardal Thornhill o Gaerdydd. Dioddefodd Mrs A anafiadau trawma difrifol i'w phen ac roedd ganddi rwygiadau ar ei harddynau. Yn drist, bu farw Mrs A o'i hanafiadau. Darganfuwyd Mrs A gan Heddlu De Cymru ar 2 Mawrth 2010.

1.2 Ar 10 Mawrth 2011, collfarnwyd Mr J yn Llys y Goron Caerdydd am ladd Mrs A ar sail cyfrifoldeb lleiedig. Dedfrydwyd Mr J trwy orchymyn llys dan adran 48/49 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 i gael ei gadw mewn uned iechyd meddwl diogelwch uchel am gyfnod amhenodol.

Cefndir Mr J

1.3 Ganwyd Mr J ym 1978 a threuliodd ei flynyddoedd cynnar yn ardal Stoke-on-Trent, ond symudodd o amgylch y D.U. gyda'i deulu oherwydd gwaith ei dad. Symudodd y teulu i dde Cymru pan yr oedd Mr J tua naw mlwydd oed a buont yn byw yn ardal Merthyr Tudful a Phont-y-pŵl.

1.4 Mae Mr J yn un o bedwar o blant ac mae ganddo ddau frawd ac un chwaer. Yn ystod ei blentyndod, aeth Mr J i wahanol ysgolion cyn i'r teulu ymgartrefu yn ardal Pont-y-pŵl. Roedd yn mwynhau bod yn yr ysgol ac astudiodd ar gyfer ei arholiadau TGAU a Safon Uwch. Dywedwyd bod gan Mr J berthynas anodd â'i rieni a gadawodd gartref y teulu yn 17 mlwydd oed.

1.5 Ar ôl ysgol, cafodd Mr J waith a bu mewn sawl swydd gan gynnwys gweithio fel cynrychiolydd gwyliau yn yr Eidal ac yn Sbaen. Priododd Mr J yn 2003, ond daeth y berthynas i ben yn 2005.

1.6 Ar ôl i'w briodas chwalu, symudodd Mr J i ardal Portsmouth i chwilio am waith ond bu'n aflwyddiannus a dychwelodd i dde Cymru yn 2007. Symudodd i fyw gyda'i chwaer am tua 18 mis.

1.7 Yn ystod y cyfnod hwn, ffurfiodd berthynas gyda menyw a oedd hefyd yn byw yn nhŷ ei chwaer, ond daeth y berthynas honno i ben. Ar ôl methiant y berthynas hon, sylwodd chwaer Mr J ei fod yn ymddwyn yn rhyfedd a bod ei dymer yn anwadal. Honnwyd ei fod wedi ysgrifennu nodiadau digyswllt o amgylch y cartref a'i fod wedi dechrau gofyn cwestiynau rhyfedd. Gadawodd cartref ei chwaer ym mis Hydref 2008.

1.8 Ar ôl gadael cartref ei chwaer, bu Mr J yn ddigartref a honnwyd ei fod yn byw mewn pabell. Fodd bynnag, pan ganfuwyd ei babell yn wag yn ardal Ystradfellte, dechreuodd ei deulu boeni am ei les. Cysylltwyd â Heddlu Dyfed Powys a chofrestrwyd Mr J yn unigolyn coll.

1.9 Mae cofnodion yr heddlu yn nodi bod swyddogion o Heddlu Gwent, ar 18 Tachwedd 2008, wedi siarad â Mr J yn ardal y Fenni; roedd hyn yn dilyn galwad ffôn gan aelod o'r cyhoedd a oedd yn pryderu am les Mr J. Ar ôl y cyswllt hwn, diddymwyd y cofnod ei fod yn unigolyn coll oddi ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu a hysbyswyd Heddlu Dyfed Powys bod Mr J wedi ceisio sylw meddygol.

1.10 Ar ôl ei gyfnod o fyw mewn pabell, cafodd Mr J swydd a bu'n byw ac yn gweithio mewn gwesty yn ardal Pont-y-pŵl; ond gadawodd Mr J y gwesty ar ôl anghydfod gyda'i gyflogwyr. Honnwyd bod Mr J wedi dwyn arian parod a sigarêts o'r gwesty er mwyn dial ar ei gyflogwyr oherwydd yr anghydfod.

Hanes Troseddol Mr J

1.11 Ym mis Rhagfyr 2008 roedd Mr J yn ddigartref eto ac yn cysgu ar y stryd yn ardal Brynbuga. Wrth i'r tywydd oeri, aeth Mr J i fyw yn ysgubor ffermwr lleol. Daeth y ffermwr o hyd i Mr J ac ymosododd yntau ar y ffermwr gyda morthwyl gan ffoi yng ngherbyd y ffermwr.

1.12 Arestwyd Mr J gan swyddogion o Heddlu Gwent ar 11 Chwefror 2009 a chafodd ei gyhuddo a'i ryddhau ar fechnïaeth i ymddangos gerbron Llys Ynadon Casnewydd ar 18 Chwefror 2009 dan Adran 47, am ymosodiad yn arwain at niwed corfforol¹ a chymryd cerbyd heb ganiatâd. Fe'i cyhuddwyd o fwrgheriaeth hefyd, yng nghyswllt lladrad arian a sigarêts o'r gwesty. Roedd Mr J hefyd wedi cael ei arestio gan Heddlu De Cymru ar 7 Chwefror 2009 am achos honedig o slapio un o breswylwyr yr hostel lle'r oedd yn aros yn ei wyneb. Cyfaddefodd Mr J i'r drosedd, derbyniodd rybudd a chafodd ei ryddhau ar yr un diwrnod. Cadarnhaodd yr unigolyn a anafwyd wrth yr heddlu ei fod yn fodlon ar eu gweithredoedd.

1.13 Dedfrydwyd Mr J gan Lys Ynadon Casnewydd ar 12 Mawrth 2009 ynglŷn â'r cyhuddiadau a oedd yn ymwneud ag ymosodiad a arweiniodd at wir niwed corfforol, bwrgheriaeth a chymryd car heb ganiatâd. Rhoddwyd dedfryd o 16 wythnos wedi ei gohirio am 18 mis i Mr J, yn ogystal â 18 mis o oruchwyliaeth gan y Gwasanaeth Prawf, gyda gofyniad penodol iddo gael 10 sesiwn o driniaeth â gweithiwr proffesiynol ym maes iechyd meddwl. Mechnïwyd Mr J i hostel fechnïaeth breifat² yn ardal Caerdydd yn ystod y cyfnod cyn iddo gael ei ddedfrydu. Arhosodd yn yr hostel fel trefniant dros dro ar ôl iddo gael ei ddedfrydu.

1.14 Tra'r oedd Mr J yn aros yn yr hostel fechnïaeth, hysbyswyd iddo fod yn anfon negeseuon e-bost '*annymunol*' at gyfryngwr ysbrydion a gyfarfu mewn eglwys ysbrydegol. Roedd y cyfryngwr yn pryderu am ei ddiogelwch ei hun, yn ogystal â diogelwch Mr J, oherwydd cynnwys y negeseuon e-bost. Honnwyd bod y negeseuon e-bost a anfonwyd gan Mr J yn cynnwys bygythiadau i gyflawni hunanladdiad a'i fod yn honni mai ef oedd '*gwardwr y Byd*'.

¹ Ystyr ymosodiad Adran 47 sy'n arwain at niwed corfforol yw pan fo trosedd yn cael ei chyflawni ag un unigolyn yn ymosod ar un arall gan achosi gwir niwed corfforol. Mae niwed corfforol yn cadw ei ystyr cyffredin ac mae'n cynnwys unrhyw niwed yr ystyrir ei fod yn tarfu ar iechyd neu gysur y dioddefwr.

² Roedd Mr J yn byw yn un o gyfleusterau Clear Springs sy'n rhedeg hostelau ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

1.15 Ni wnaeth y cyfryngwr ysbrydion unrhyw gŵyn ffurfiol i'r Heddlu, ond aeth swyddogion yr Heddlu i breswylfa Mr J ar 17 Ebrill 2009 a'i gynghori i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn fwy cyfrifol wrth gysylltu â'r cyfryngwr neu'r eglwys ysbrydegol yn y dyfodol.

Cysylltiad Mr J â'r Gwasanaeth Prawf

1.16 Ar ôl i Mr J ymddangos yn y llys ynadon ar 12 Mawrth 2009, fe'i gwnaed yn destun goruchwyliaeth gan y Gwasanaeth Prawf. Ar 27 Mawrth 2009, adolygodd y Rheolwr Troseddwy'r ffeil Mr J. Ar y cychwyn, roedd y Gwasanaeth Prawf wedi cynnal asesiad risg ar gyfer Mr J gan benderfynu ei fod yn Haen 2³ ar y System Asesu Troseddwy'r⁴ o ran y risg yr oedd yn ei hachosi i'r cyhoedd. Fodd bynnag, wrth adolygu'r asesiad cychwynnol, symudodd y Rheolwr Troseddwy'r ei statws i fyny i risg Haen 3 i'r cyhoedd (statws uwch) oherwydd difrifoldeb y drosedd berthnasol (defnyddio arf i achosi anaf), ei broblemau iechyd meddwl, a'r ffaith ei fod yn ddigartref.

1.17 Roedd Mr J yn bresennol ar gyfer ei apwyntiad cychwynnol â'i Swyddog Prawf ar 19 Mawrth 2009 lle yr eglurwyd amodau ei oruchwyliaeth iddo. Fodd bynnag, nid aeth Mr J i unrhyw apwyntiadau ychwanegol â'i Swyddog Prawf nac ymateb i ohebiaeth a anfonwyd ato, ac o ganlyniad, gwyswyd Mr J gan y Gwasanaeth Prawf i ymddangos gerbron Llys Ynadon Caerdydd ar 20 Ebrill 2009. Ni wnaeth Mr J ymddangos yn y Llys, ac o ganlyniad, cyflwynwyd gwarant arestio i swyddogion gorfodi'r llys yn unol â phrotocol y llys, ar 27 Ebrill 2009.

³ Dynodir haenau i gleientiaid prawf ar sail eu collfarnau blaenorol, eu hamgylchiadau personol a'u hoedran. Ceir pedair haen. Mae Haen 1 yn risg isel, a Haen 4 yn risg uwch i'r cyhoedd.

⁴ Nod y System Asesu Troseddwy'r yw galluogi unigolyn sydd â hyfforddiant a chymwysterau priodol - Swyddog Prawf yn aml - i: asesu pa mor debygol yw hi i droseddwr gael ei gollfarnu eto; nodi a dosbarthu anghenion sy'n ymwneud â throddu, gan gynnwys nodweddion personoliaeth a phroblemau ymddygiad gwybyddol sylfaenol; asesu risg o niwed difrifol, risgiau i'r unigolyn a risgiau eraill; a chynorthwyo i reoli'r risg o niwed. Mae'n cysylltu'r asesiad â'r oruchwyliaeth neu'r cynllun dedfrydu, yn dangos yr angen am fwy o asesiadau arbenigol, ac yn gwerthuso'r newid yn ystod y cyfnod goruchwyllo/dedfryd.

1.18 Prin yw'r wybodaeth sydd ar gael am symudiadau Mr J rhwng mis Mawrth a mis Mai 2009, ac nid oes unrhyw gofnod ar gael i ddangos ei fod yn derbyn gwasanaethau iechyd na gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, deallir bod Mr J yn byw yn yr hostel fechnïaeth yr oedd wedi ei remandio iddi ym mis Chwefror 2009. Roedd y cofnodion a oedd ar gael yn amlygu'r ffaith fod preswylwyr yn yr hostel fechnïaeth wedi gwneud galwad brys i'r gwasanaeth ambiwlans ar ôl i Mr J geisio cyflawni hunanladdiad ar 2 Mai 2009. Rhybuddiwyd yr Heddlu hefyd, a gwnaethant atgyfeiriad Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed trwy ddefnyddio ffurflen PPD1⁵. Fodd bynnag, gan fod Mr J wedi ei gludo i'r ysbyty, ac yna, wedi ei dderbyn i Ysbyty'r Eglwys Newydd, ni chymerwyd unrhyw gamau dilynol eraill gan yr Heddlu.

Derbyn Mr J i Ysbyty'r Eglwys Newydd

1.19 Ar 2 Mai 2009, cludwyd Mr J mewn ambiwlans i Uned Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Athrofaol Cymru â rhwygiad ar ei arddwrn. Dywedodd wrth staff yr Uned Damweiniau ac Achosion Brys ei fod wedi torri ei arddwrn mewn ymgais fwriadol i gyflawni hunanladdiad.

1.20 Aseswyd Mr J gan y Tîm Argyfwng Iechyd Meddwl sy'n gweithio yn yr adran Damweiniau ac Achosion Brys. Yn ystod ei asesiad, dywedodd ei fod yn teimlo bod ei ffordd o fyw wedi dechrau mynd yn '*ddi-drefn*' yn ystod y 18 mis diwethaf a'i fod yn gallu cyfathrebu â thri '*ysbryd*'. Cadarnhaodd hefyd ei fod yn gweld '*llewyrch*' ac yn dehongli mai ysbrydion oeddynt. Honnodd Mr J ei fod wedi ceisio cyflawni hunanladdiad ar saith achlysur blaenorol mewn cyfnod o ddwy flynedd.

1.21 Asesodd y Tîm Argyfwng fod angen mwy o gyfraniad iechyd meddwl ar Mr J, ac fe'i hebryngwyd gan aelod o'r Tîm Argyfwng i Ysbyty'r Eglwys Newydd lle y'i derbyniwyd yn glaf anffurfiol am 00:35am ar 3 Mai 2009. Dywedwyd wrth y staff yn Ysbyty'r Eglwys Newydd gan yr aelod o'r Tîm Argyfwng a hebryngodd Mr J y dylent gysylltu â'r Nyrs Seiciatrïg Gymunedol a oedd yn gweithio â'r Gwasanaeth Prawf i roi

⁵ Ffurflen atgyfeirio yw PPD1 a ddefnyddir gan yr heddlu i atgyfeirio unigolyn neu grŵp i'r Gwasanaethau Cymdeithasol pan asesir eu bod yn agored i niwed.

gwybod ei fod wedi'i dderbyn, gan ei fod yn destun goruchwyliaeth gan y Gwasanaeth Prawf. Hysbyswyd y Nyrs Seiciatrig Gymunedol a oedd yn gweithio â'r Gwasanaeth Prawf trwy PARIS⁶, y system gofal iechyd, bod Mr J wedi'i dderbyn i'r ysbyty.

1.22 Derbyniwyd Mr J i Ward 2A y Dwyrain (ward seiciatrig aciwt, gymysg) yn Ysbyty'r Eglwys Newydd. Mae'r cofnodion meddygol yn nodi ei fod yn ymddangos wedi ymlacio'n gyffredinol pan gyrhaeddodd ond ei fod yn nerfus ar adegau. Mae'r cofnodion hefyd yn nodi bod Mr J yn gallu siarad â'r staff, a bod cyflymder, tôn a chryfder ei leferydd yn normal ac nad oedd tystiolaeth o unrhyw anhwylder meddyliol, ond bod ei leferydd yn codi pan oedd yn siarad am y tri 'ysbryd'. Datgelodd Mr J hefyd ei fod yn gweld 'ysbrydion' trwy 'lewyrch' a oedd yn ymddangos iddo.

1.23 Datgelodd Mr J i staff y ward ei fod yn byw mewn hostel fechnïaeth ond nad oedd yn hoffi bod yno a'i fod yn teimlo'r angen i'w ynysu ei hun yn ei ystafell, gan ei fod yn ei chael hi'n anodd rheoli ei dymer a rhwystredigaeth tuag at breswylwyr eraill. Nododd nyrs yng nghofnodion Mr J fod:

'(Mr J) yn canfod bod ei deimladau ymosodol wedi eu hanelu'n arbennig tuag at ddynion ac nid menywod....o'r farn fod dynion yn ffiaidd, yn gyffredinol, nad ydynt yn gwrtais, ac nad ydynt yn deimladwy fel menywod.'

1.24 Arsylwyd Mr J yn ystod y diwrnodau canlynol, a gwelwyd ei fod mewn hwyliau da, ei bod yn hawdd mynd ato, a'i fod yn cadw cyswllt llygad da. Fodd bynnag, nodwyd ei fod yn 'fregus' ac wedi cynhyrfu ar adegau. Gwelwyd Mr J ar un achlysur yn sibwrdd wrtho'i hun ac yn camu yn ôl ac ymlaen yr ardal ddydd heb fod unrhyw gleifion na staff o gwmpas. Pan gynigodd y staff feddyginiaeth i'w chymryd pan oedd angen (PRN)⁷ i helpu i leddfu ei aflonyddwch meddwl, gwrthododd y cynnig.

⁶ Cofnod electronig asesu a chynllunio gofal sydd ar gael i ddarparwyr gwasanaeth yn y GIG yw PARIS.

⁷ Mae PRN yn deillio o'r ymadrodd Lladin 'Pro re nata' sy'n golygu 'fel y bo'r achlysur yn codi'. Mae'n cael ei dalfyrru'n gyffredinol i PRN i gyfeirio at ddos o feddyginiaeth ragnodedig na threfnwyd i'w chymryd ar adeg benodol.

1.25 Gwelwyd hefyd bod Mr J yn gymdeithasol, yn enwedig gyda grŵp o gleifion benywaidd. Roedd Mrs A (a laddwyd), yn rhan o'r grŵp hwnnw⁸. Ar yr adeg honno, nid oedd Mr J yn arddangos unrhyw arwyddion o byliau ymosodol, ac roedd yn ymateb yn dda yn rhan o'r grŵp hwnnw.

1.26 Ar 5 Mai 2009, ceisiodd y staff ar Ward 2A y Dwyrain gysylltu â Rheolwr Troseddwy Mr J yn y Gwasanaeth Prawf i gael ei hanes fforensig. Gadawyd neges i'r Rheolwr Troseddwy, ac ar 6 Mai 2009, cysylltodd Swyddog Goruchwylio o'r Gwasanaeth Prawf â'r ward a siaradodd â nyrs gradd staff i roi gwybod iddi fod Mr J wedi torri ei amodau prawf ac y cyhoeddwyd gwarant i'w arestio. Dywedodd y Swyddog Goruchwylio wrth y nyrs fod risg bosibl i Mr J achosi niwed difrifol i bobl eraill (oherwydd natur y drosedd a oedd yn ymwneud â'r ffermwr). Ar yr adeg honno, gallai'r Swyddog Goruchwylio fod wedi hysbysu'r heddlu ble'r oedd Mr J er mwyn iddynt allu gweithredu'r warant arestio. Fodd bynnag, gan fod Mr J yn cael triniaeth fel claf mewnol a'i bod yn hysbys ble'r oedd, gofynnodd y Swyddog Goruchwylio i'r staff iechyd gysylltu â'r Swyddog Prawf eto cyn i Mr J gael ei ryddhau o'r ysbyty fel y gellid ailddechrau ei oruchwylio a gweithredu'r warant i'w arestio.

1.27 Cysylltodd swyddog o Heddlu De Cymru â Ward 2A y Dwyrain ar 7 Mai 2009 i hysbysu staff y ward i honiad gael ei wneud fod Mr J wedi bod yn anfon mwy o negeseuon e-bost '*rhyfedd*' at gyfryngwr ysbrydion yn honni mai oddi wrtho ef yr oedd y lleisiau yr oedd y cyfryngwr yn eu clywed yn dod, ac nid oddi wrth ysbrydion. Dywedodd swyddog yr heddlu wrth y nyrs staff y siaradodd ag ef/hi fod Mr J wedi cael rhybudd ynglŷn ag anfon negeseuon e-bost o'r fath yn flaenorol, ond ei fod, yn ôl pob golwg, wedi parhau i gysylltu â'r cyfryngwr trwy wefan rhwydweithio cymdeithasol, yn ogystal ag anfon mwy o negeseuon i eglwys ysbrydegol y cyfryngwr. Dywedodd swyddog yr heddlu y byddai'r heddlu yn cysylltu â'r Ward eto i gadarnhau pa bryd yr oedd Mr J am gael ei ryddhau o'r ysbyty.

⁸ Cyfarfu Mr J a Mrs A am y tro cyntaf yn ystod y cyfnod hwn pan dderbyniwyd Mr J i Ward 2A y Dwyrain.

1.28 Ar yr un diwrnod, gwelwyd Mr J gan ei Glinigydd Cyfrifol⁹ am y tro cyntaf. Y rheswm pam nad oedd Mr J wedi cael ei weld gan ei Glinigydd Cyfrifol cyn hynny oedd ei fod, ar y dechrau, wedi ei roi ar restr ddyletswyddau clinigydd a oedd fel arfer yn ymdrin â chleifion yr oedd yn hysbys eu bod heb gartref sefydlog¹⁰. Roedd y clinigydd a oedd yn gyfrifol am y rhestr ddyletswyddau hon wedi bod yn absennol oherwydd rhesymau personol ar adeg derbyn Mr J, ac roedd hynny wedi arwain at beth dryswch ac oedi o ran neilltuo Clinigydd Cyfrifol i Mr J.

1.29 Yr Uwch-swyddog Preswyl¹¹ a wnaeth y nodyn yng nghofnodion Mr J a oedd yn rhoi manylion asesiad y Clinigydd Cyfrifol, ond roedd yn cadarnhau i asesiad cychwynnol y Clinigydd Cyfrifol nodi ei bod yn ymddangos bod gan Mr J '*symptomau seicotig*'. Nodwyd hefyd yn yr asesiad ei bod yn '*ymddangos bod gan Mr J gredoau rhithdybiol*'. Gofynnodd y Clinigydd Cyfrifol am farn fforensig arall¹².

1.30 Parhaodd staff y ward i arsylwi Mr J yn ystod y dyddiau canlynol, ac roedd yn ymddangos yn gythryblus; roedd yn ymwthio i ofod personol y staff yn fwy nag arfer. Fodd bynnag, o arsylwi, gwelwyd hefyd fod Mr J yn ymadweithio'n dda â chleifion eraill, a'r grŵp o gleifion benywaidd yn benodol.

1.31 Ar nos Sadwrn 9 Mai 2009, dechreuodd Mr J fynd yn rhy gythryblus, ac fe'i gwelwyd yn clepian drysau ac yn camu'n ôl ac ymlaen yn ei ystafell. Gwaethygodd y sefyllfa pan ddechreuodd Mr J ddefnyddio geiriau difriol yn ystod ffrwydrad ymosodol a anelwyd at glaf gwrywaidd arall. Nid oedd y staff yn gallu tawelu Mr J, a chafodd ei drosglwyddo i'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig¹³ yn Ysbyty'r Eglwys Newydd.

⁹ Clinigydd Cymeradwy y rhoddwyd y cyfrifoldeb cyffredinol dros achos claf iddo yw Clinigydd Cyfrifol.

¹⁰ Mae enwau cleifion yn cael eu rhoi ar restr ddyletswydd Heb Gartref Sefydlog os nad oes ganddynt gyfeiriad sefydlog, os ydynt yn byw mewn hostel, neu os nad ydynt wedi cofrestru â meddyg teulu.

¹¹ Meddyg Iau yw Uwch-swyddog Preswyl.

¹² Y diffiniad o iechyd meddwl fforensig yw maes arbenigedd sy'n ymwneud ag asesu a thrin y rhai hynny sydd ag anhwylder meddwl ac y mae eu hymddygiad wedi arwain at droseddu, neu y gallai arwain at hynny.

¹³ Math o ward seiciatrig ar gyfer cleifion mewnol yw Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Mae'r lefelau staffio ar y wardiau hyn yn uwch nag ar ward derbyn aciwt, gyffredin. Bwriad Unedau Gofal Dwys Seiciatrig yw gofalu am gleifion na ellir eu rheoli ar

Cynhaliwyd asesiad risg ar gyfer Mr J ar 10 Mai 2009. Hwn oedd yr unig asesiad risg a oedd ar gael i'r tîm adolygu, ac oherwydd hynny, mae'n ymddangos mai hwn yw'r unig asesiad risg a gynhaliwyd tra bod Mr J yn Ysbyty'r Eglwys Newydd. Cynhaliwyd yr asesiad risg gan aelod profiadol o'r staff nyrsio, ac aseswyd risg Mr J fel a ganlyn:

- Risg i eraill: RISG DDIFRIFOL YMDDANGOSIADOL.
- Risg i blant: RISG ISEL.
- Risg o hunanladdiad: RISG DDIFRIFOL YMDDANGOSIADOL.
- Risg o hunan-niweidio bwriadol: RISG SYLWEDDOL.
- Risg o hunanesgeuluso/hunan-niweidio damweiniol difrifol: RISG DDIFRIFOL YMDDANGOSIADOL.
- Risg o gamdriniaeth gan eraill: RISG ISEL.
- Risg bosibl i aelodau staff: RISG DDIFRIFOL YMDDANGOSIADOL.

1.32 Tra'r oedd Mr J yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, nodwyd ei fod yn gynhyrfus a chythryblus iawn, a'i fod, ar un adeg, wedi bygwth *'lladd'* rhywun pe na byddai'n cael ei drosglwyddo yn ôl i Ward 2A y Dwyrain, gan iddo deimlo *'nad oedd fel un ohonyn nhw'*. Cofnodwyd iddo ddweud *'na fyddai'n gyfrifol am ei weithredoedd'* pe byddai'n cael ei adael yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Dywedwyd wrth Mr J nad oedd yn bosibl iddo ddychwelyd i'w ward flaenorol oherwydd ei ymddygiad. Fe'i hysbyswyd y byddai'n cael ei osod dan Adran 5(2) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983¹⁴ a'i drosglwyddo i'r Ward Diogelwch Isel (Ward 3 y Gorllewin - ward diogelwch isel ar gyfer dynion yn unig) pe na byddai'n ymgartrefu ar ward yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Parhaodd Mr J i fynnu cael ei symud, ac yn dilyn hynny, fe'i gosodwyd

wardiau seiciatrig agored (heb eu cloi) oherwydd lefel y risg y mae'r claf yn ei hachosi iddo ef ei hun neu i eraill.

¹⁴ Y pŵer cadw sydd gan feddyg yw Adran 5(2). Ni cheir ei defnyddio ond ar gyfer cadw unigolyn mewn ysbyty sydd wedi cytuno i gael ei dderbyn yn anffurfiol (o'i wirfodd) ond a newidiodd ei feddwl ar ôl hynny ac sy'n dymuno gadael. Ceir ei weithredu yn dilyn asesiad (byr, fel arfer) gan y Clinigydd Cyfrifol neu ei ddirprwy. Mae hyn, mewn gwirionedd, yn golygu unrhyw feddyg ysbyty, gan gynnwys seiciatryddion, ond hefyd, y rhai hynny sydd wedi eu lleoli ar wardiau meddygol neu lawfeddygol. Mae mewn grym am hyd at 72 awr, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, gallai asesiad arall arwain at naill ai ryddhau'r claf o bŵer yr Adran neu ei gadw dan orchymyn asesu Adran 2, neu orchymyn triniaeth Adran 3.

dan adran 5(2) gan y clinigydd a oedd ar alwad ar 10 Mai 2009 (24 awr ar ôl iddo gael ei leoli yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig), ac fe'i trosglwyddwyd i Ward 3 y Gorllewin, y Ward Diogelwch Isel.

1.33 Tra'r oedd Mr J yn Ward 3 y Gorllewin, dywedodd ei fod yn teimlo'n anghyfforddus ar ward i ddynion yn unig, a'i fod yn teimlo'n rhwystredig ei fod wedi ei symud i dair ward mewn cyfnod o 48 awr. Er ei fod yn teimlo'n rhwystredig ynglŷn â'r sefyllfa hon, roedd yn ymddangos bod Mr J yn dawel ac wedi ymgartrefu. Fe'i haseswyd eto ar 11 Mai 2009 gan ei Glinigydd Cyfrifol, a nododd fod Mr J yn ei iawn bwyll a'i fod yn dangos ei fod yn deall ei ymddygiad. Nodwyd nad oedd gan Mr J unrhyw greddau rhithdybiol ond ei fod yn parhau i honni ei fod yn clywed lleisiau, gan ddweud nad oeddent yn lleisiau gorchmynnol nac yn dylanwadu arno. Diddymwyd adran 5(2) gan ei Glinigydd Cyfrifol, a chaniatawyd i Mr J ddychwelyd i Ward 2A y Dwyrain ar 12 Mai 2009.

1.34 Ar 12 Mai 2009, aseswyd Mr J yn Ward 2A y Dwyrain gan Uwch-swyddog Preswyl a gofnododd fod Mr J yn orgyfeillgar, a'i fod wedi ei weld yn symud yn ôl ac ymlaen yn afreolaidd ar gadair. Mae cofnod yr asesiad yn nodi bod Mr J yn siarad yn gyflym ac yn wyllt ond ei fod yn ddealladwy. Roedd yn siarad am ysbrydion, ac roedd yr Uwch-swyddog Preswyl wedi cofnodi fod gan Mr J annhrefn meddwl a'i fod yn meddwl bod rhywun neu rywbeth yn dileu ei feddyliau o'i ymenydd. Aseswyd mai prin oedd ei ddirnadaeth o'i iechyd meddwl, a chynghorodd y clinigydd y dylid parhau i ddilyn yr un cynllun rheoli tra ei fod ar Ward 2A y Dwyrain er mwyn iddo gael ei asesu eto.

1.35 Yn ystod y ddau ddiwrnod canlynol, gwelwyd bod Mr J yn ymadweithio'n ddymunol ac yn briodol â chleifion eraill. Roedd hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a gynhelid ar y ward ac yn treulio mwy o amser mewn mannau cymunedol. Ar 14 Mai 2009, aseswyd Mr J gan uwch glinigydd o'r Gwasanaethau Diogelwch Isel¹⁵ mewn ymateb i'r cais a wnaed am farn fforensig ar 7 Mai 2009.

¹⁵ Mae Gwasanaethau Diogelwch Isel yn darparu gwasanaeth iechyd meddwl cynhwysfawr i droseddwyr a phobl eraill sydd mewn perygl o droseddu. Maent yn darparu gwasanaethau cleifion mewnol, cleifion allanol a chymunedol sy'n darparu

Roedd y clinigydd, a oedd yn seiciatrydd cyffredinol ac nid yn seiciatrydd fforensig arbennig, yn cytuno ag asesiad a wnaed gan Glinigydd Cyfrifol Mr J, lle'r oedd wedi cofnodi nad oedd Mr J yn arddangos unrhyw arwyddion o salwch meddwl a bod ei gredoau rhithdybiol yn rhan o'i bersonoliaeth. Roedd y Clinigydd Cyfrifol a Chlinigydd y Gwasanaethau Diogelwch Isel o'r farn fod gan Mr J anhwylder personoliaeth. Argymhellodd y clinigydd diogelwch isel y dylai Mr J gael ei ryddhau o Ysbyty'r Eglwys Newydd, ond nododd y gallai Mr J elwa ar gyfaniad seicolegol.

1.36 Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw (14 Mai 2009), rhyddhawyd Mr J gan Uwch-swyddog Preswyl (yr un clinigydd ag a oedd wedi cynnal yr asesiad ar ei gyfer ar 12 Mai 2009) trwy gyngor ei Glinigydd Cyfrifol a'r clinigydd diogelwch isel. Rhyddhawyd Mr J o Ysbyty'r Eglwys Newydd â diagnosis o anhwylder personoliaeth, ac ni wnaethpwyd unrhyw drefniadau i'r gwasanaethau iechyd gymryd camau dilynol ar ei gyfer, a hynny'n rhannol oherwydd bod Mr J yn gwrthod unrhyw gyfraniad arall ac yn gwrthod defnyddio meddyginiaeth.

1.37 Cysylltodd rheolwr y ward â Heddlu De Cymru i'w hysbysu bod Mr J wedi ei ryddhau o Ysbyty'r Eglwys Newydd gan y credid bod gwarant yn dal i fod mewn grym i'w arestio. Dywedodd yr heddlu nad oedd y warant ganddynt ond eu bod yn gallu datgelu ei bod gan y llysoedd ym Mhontypridd. Dywedwyd wrth reolwr y ward hefyd y byddai swyddog gwarant y llysoedd¹⁶ yn hysbysu'r llys bod Mr J wedi'i ryddhau. Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, cafodd y ward alwad ffôn gan swyddog yr heddlu yn holi am fater arall ynglŷn â'r achos honedig bod Mr J wedi aflonyddu ar '*gyfryngwr ag ysbrydion*'. Hysbyswyd y swyddog heddlu gan nyrs staff fod Mr J wedi ei ryddhau.

asesiad a thriniaeth, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gynorthwyo gweithwyr proffesiynol neu asiantaethau eraill. Darperir y gwasanaethau hyn gan Gyn-Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, ac maent wedi eu lleoli yn Ysbyty'r Eglwys Newydd.

¹⁶ Mae swyddogion gwarant yn gyfrifol am gofnodi'r holl warantau a gyflwynir gan y llysoedd i'w gweithredu ar systemau cyfrifiadurol yr heddlu. Mae swyddogion gwarant yn gyfrifol am weithredu gwarantau'r fainc, gwarantau torri amodau, ac am gyflwyno dogfennau'r llys yn bersonol, megis gwysion, hysbysiadau gohiriad, a hysbysiadau gyrrwr sydd wedi ei anghymhwyso.

1.38 Drannoeth (15 Mai 2009), cysylltodd aelod o staff o Ward 2A y Dwyrain â'r Swyddog Goruchwylio Prawf, gan adael neges yn hysbysu bod Mr J wedi'i ryddhau o Ysbyty'r Eglwys Newydd.

1.39 Ysgrifennodd y Clinigydd Diogelwch Isel at Glinigydd Cyfrifol Mr J ar 28 Mai 2009 i roi gwybod yn ffurfiol am ei farn, a oedd yn cyd-fynd â barn y Clinigydd Cyfrifol. Roedd y ddau glinigydd yn ystyried bod Mr J yn arddangos '*symptomau seicotig dros dro, yn bennaf yng nghyd-destun anhwylder personoliaeth*'. Roeddent o'r farn fod ei '*hanesion hirdymor o leisiau rhithiol yn deillio o'i bersonoliaeth, ac nad oedd unrhyw dystiolaeth ar gael i ddangos arwydd o sgitsoffrenia*'. Yn y llythyr hwn, mae'r Clinigydd Diogelwch Isel yn nodi y gallai Mr J elwa ar gyfraniad ym maes seicoleg, ac mae'n cadarnhau ei fod yn cytuno â barn y Clinigydd Cyfrifol mai'r ffordd fwyaf priodol o ofalu am Mr J a rhoi triniaeth iddo oedd fel claf allanol. Fodd bynnag, ni wnaed unrhyw atgyfeiriad i seicolegydd ac ni threfnwyd apwyntiad claf allanol, a hynny'n rhannol oherwydd amharodrwydd Mr J i gydweithredu.

Mr J ar ôl ei Ryddhau o Ysbyty'r Eglwys Newydd

1.40 Ar ôl cael ei ryddhau o Ysbyty'r Eglwys Newydd, roedd Mr J yn ddigartref unwaith eto. Gofynnodd y staff yn Ysbyty'r Eglwys Newydd iddo fynd i Marland House¹⁷ ar ôl cael ei ryddhau, i gofrestru ei fod yn ddigartref, fel y gellid trefnu llety argyfwng ar ei gyfer. Aeth Mr J i Marland House fel y'i cyfarwyddwyd, ond nid oedd yn gymwys i dderbyn llety dros dro gan Gyngor Caerdydd gan nad oedd ganddo unrhyw gysylltiadau lleol ac nad oedd yn bodloni'r meini prawf a osodwyd yn unol â'r Ddeddf Tai. Cyngorwyd Mr J gan staff Cyngor Caerdydd i fynd i Tresillian House, canolfan argyfwng i'r digartref, lle y gallai dderbyn llety. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod Mr J wedi dewis peidio â dilyn y cyngor hwn.

1.41 Prin yw'r wybodaeth sydd ar gael am drefniadau byw Mr J ar ôl iddo gael ei ryddhau o Ysbyty'r Eglwys Newydd, rhwng mis Mai 2009 a mis Tachwedd 2009, gan ei bod yn ymddangos nad oedd Mr J yn derbyn gwasanaethau gan y Gwasanaeth

¹⁷ Canolfan cyngor tai sy'n cael ei rhedeg gan Awdurdod Lleol Caerdydd yw Marland House.

lechydd na'r Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, mae Mr J yn honni iddo fod yn byw mewn pabell ar gyrion Caerdydd. Honnwyd bod Mr J mewn cysylltiad â Mrs A o bryd i'w gilydd yn ystod y cyfnod hwn, gan ymweld â hi weithiau yn Ysbyty'r Eglwys Newydd, yn ôl pob golwg, pan oedd hi'n parhau i fod yn glaf mewnol yno. Mae'n aneglur pa mor aml yr oedd Mr J yn ymweld â Mrs A yn Ysbyty'r Eglwys Newydd a beth oedd union natur eu perthynas ar yr adeg honno.

1.42 Ym mis Mehefin 2009, newidiodd Mr J ei enw trwy weithred newid enw, a hynny yn ôl pob golwg mewn ymateb i wyllo'r ffilm *Constantine*¹⁸.

1.43 Daeth Mr J i sylw'r gwasanaethau iechyd eto ar 24 Tachwedd 2009 pan aeth i adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Athrofaol Cymru yn honni ei fod wedi cymryd gorddos o Ibuprofen. Mae cofnodion yn cadarnhau ei fod yn lân a thrwsiadus pan aeth i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys, a oedd yn anghyson â'i honiad ei fod yn byw mewn pabell. Dywedodd Mr J wrth staff yr adran Damweiniau ac Achosion Brys ei fod wedi cofrestru â Tresillian House ond nad oedd wedi aros yno oherwydd nad oedd yn hoffi'r preswylwyr eraill. Soniodd ei fod yn teimlo y byddai wedi '*lladd*' rhywun pe byddai wedi aros yno.

1.44 Yn dilyn triniaeth ar gyfer ei orddos, aseswyd Mr J gan y Tîm Argyfwng Iechyd Meddwl a oedd yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Edrychodd y Tîm Argyfwng ar gofnod meddygol Mr J a gweld ei fod wedi'i ryddhau o Ysbyty'r Eglwys Newydd ym mis Mai 2009 â diagnosis o anhwylder personoliaeth. Asesodd y Tîm Argyfwng nad oedd gan Mr J unrhyw symptomau seicotig er iddo siarad am y ffaith ei fod yn clywed ac yn gweld '*ysbrydion*'. Cofnodwyd bod Mr J, yn ystod yr asesiad, wedi cadw cyswllt llygaid da, bod ei leferydd a thôn ei lais yn rhugl, nad oedd yn ymddangos yn gythryblus, a'i fod yn canolbwyntio heb drafferth (nad yw'n cyfateb i rywun sy'n cael rhithweledigaethau clywedol seicotig). Er nad oedd Mr J yn gythryblus ar y cychwyn, dechreuodd fynd yn ymosodol pan ddywedwyd wrtho na fyddai'n cael ei dderbyn i'r ysbyty, a bygythiodd y byddai'n cyflawni hunanladdiad. Dywedodd y Tîm Argyfwng wrth Mr J nad oedd unrhyw reswm iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty gan nad oedd yn arddangos symptomau seicotig. Roedd y ddau aelod o'r

¹⁸ Ffilm arswyd Americanaidd a ryddhawyd yn 2005 gan stiwdios Warner Bros yw '*Constantine*'.

Tîm Argyfwng a oedd yn bresennol o'r farn fod Mr J yn ceisio cael ei dderbyn i'r ysbyty oherwydd nad oedd yn hoffi ei drefniadau byw.

1.45 Gwaethygodd ymddygiad Mr J tra'r oedd yn cael ei asesu, ac o ganlyniad, galwodd y Tîm Argyfwng yr heddlu. Trwy gyd-ddigwyddiad, roedd yr heddlu eisoes ar eu ffordd i Ysbyty Athrofaol Cymru gan yr hysbyswyd bod Mr J yn unigolyn coll a bod Heddlu Gwent wedi bod yn ceisio dod o hyd iddo. Gwadodd Mr J iddo fod yn unigolyn coll, ond cyfaddefodd yn ddiweddarach ei fod wedi anfon neges destun at ffrind yn dweud ffarwel. Roedd y Tîm Argyfwng yn ymwybodol hefyd ei fod yn destun goruchwyliaeth gan y Gwasanaeth Prawf, gan i'r wybodaeth honno, ynghyd â gwybodaeth am ddiagnosis anhwylder personoliaeth Mr J, gael ei nodi ar PARIS (ar ôl iddo gael ei dderbyn i Ysbyty'r Eglwys Newydd a'i ryddhau oddi yno).

1.46 Cysylltodd y Tîm Argyfwng â'r Gwasanaeth Prawf, a gadarnhaodd fod gwarant ar gyfer arestio Mr J yn parhau i fod mewn grym. Trosglwyddwyd y wybodaeth hon i'r heddlu a oedd yn bresennol. Fodd bynnag, cadarnhaodd swyddog yr heddlu nad oedd cofnod o'r warant ar gael ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Roedd cofnodion yr heddlu yn nodi:

'Aeth yr Heddlu i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys ar 24 Tachwedd 2009 oherwydd y cylchredwyd hysbysiad o unigolyn coll. Dywedodd yr aelod o'r tîm argyfwng wrth y swyddogion a oedd yn bresennol fod y gwasanaeth prawf wedi'u hysbysu bod gwarant i arestio Mr J oherwydd ei fod wedi torri amodau. Ymateb yr heddlu oedd eu bod wedi edrych, ac nad oedd unrhyw gofnod o warant gyfredol ar gyfer Mr J. Ni chafodd ei arestio.'

1.47 Nid oedd yn briodol i'r heddlu gadw Mr J yn gaeth dan Adran 136¹⁹ o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, gan ei fod eisoes mewn man diogel dynodedig²⁰ (Ysbyty Athrofaol

¹⁹ Mae Adran 136 yn orchymyn sy'n caniatáu i swyddog o'r heddlu fynd ag unigolyn y mae o'r farn ei fod yn dioddef anhwylder meddwl i 'fan diogel'. Mae hyn yn berthnasol i bobl y ceir hyd iddynt mewn man cyhoeddus yn unig. Pan fyddant yn ddarostyngedig i orchymyn Adran 136, maent yn cael eu hasesu ac, mewn rhai achosion, gellir gweithredu gorchymyn asesiad Adran 2 neu orchymyn triniaeth Adran 3.

Cymru) a bod dau aelod o'r tîm argyfwng wedi barnu nad oedd Mr J yn briodol i gael ei dderbyn i'r ysbyty. Gadawodd Mr J yr ysbyty yn sydyn gan fygwth cyflawni hunanladdiad a dweud mai bai'r rhai a oedd wedi ei asesu a fyddai hynny, pe digwyddai.

Cyfnod Mr J yn Hostel y YMCA

1.48 Cysylltodd Mr J â'r cydgysylltydd gwelyau argyfwng yn Tresillian House ar 25 Tachwedd 2009 a chanfuwyd gwely iddo yn hostel y YMCA. Ar 30 Tachwedd 2009, daeth yr heddlu'n ymwybodol fod Mr J yn byw yn hostel y YMCA trwy eu rhwydwaith wybodaeth lleol.

1.49 Nodwyd bod Mr J wedi'i chael yn anodd ymgartrefu yn yr hostel a'i fod wedi cael sawl gwrthdaro â'r preswylwyr eraill. Nodwyd ei fod yn bygwth y preswylwyr eraill ar lafar. Ar 15 a 22 Rhagfyr 2009 cysylltodd ei weithiwr cymorth yn y YMCA â'r Tîm Argyfwng Iechyd Meddwl i ofyn am gyfraniad gan ei bod yn pryderu am iechyd Mr J gan ei fod yn honni ei fod yn gweld 'ysbrydion' ac yn gallu gweld i'r dyfodol; ond nid oedd yn ymosodol nac yn dangos unrhyw fwriad i hunan-niweidio. Gan nad oedd Mr J yn derbyn gofal a thriniaeth gan y gwasanaethau iechyd meddwl ar yr adeg honno, cynghorodd y Tîm Argyfwng y dylai Mr J gofrestru gyda meddyg teulu lleol er mwyn iddo allu cael ei atgyfeirio i'r Tîm Argyfwng Iechyd Meddwl lleol. Cynghorodd y Tîm Argyfwng hefyd y dylai'r YMCA gysylltu â'r heddlu os oedd Mr J yn mynd yn ymosodol, yn ogystal â'r Gwasanaeth Prawf gan fod gwarant arestio yn parhau i fod mewn grym.

1.50 Cysylltodd y gweithiwr cymorth â'r Gwasanaeth Prawf ar 21 Rhagfyr 2009 ac fe'i cynghorwyd y dylai annog Mr J i'w gyflwyno ei hun i'r Llysoedd. Gwrthododd Mr J gyflwyno ei hun i'r heddlu ond cyflwynodd ei hun i'r awdurdodau ar 18 Ionawr 2010.

²⁰ Gall man diogel dynodedig fod mewn ysbyty, gorsaf Heddlu neu fan arall priodol. Serch hyn, mae'r canllawiau diweddaraf yn nodi taw dim ond mewn sefyllfaoedd eithriadol dyllir defnyddio gorsaf Heddlu, a bod ardaloedd hyd a ledled Cymru yn gweithio i sicrhau bod mannau diogel dynodedig ar gael mewn gosodiadau addas, fel arfer mewn ysbyty.

(<http://www.mentalhealthwales.net/mhw/police.php>)

Mr J yn Ailymgysylltu â'r Gwasanaeth Prawf

1.51 Nid yw'n eglur at bwy neu at ba sefydliad yr ildiodd Mr J ei hun, ond mae'r cofnodion yn cadarnhau ei fod wedi cyflwyno ei hun ar 18 Ionawr 2010 ac ymddangosodd yn Llys yr Ynadon ar yr un diwrnod. Rhoddwyd mechnïaeth amodol iddo tan 25 Ionawr 2010 i fyw mewn canolfan leol i'r digartref (sef hostel y YMCA lle'r oedd yn byw ar y pryd). Er hyn, gohiriodd y Llys ei achos tan 1 Chwefror 2010 i ganiatáu amser i'r Gwasanaeth Prawf ddarparu adroddiad torri mechnïaeth cyfredol.

1.52 Daeth Mr J i gyfarfod â'r Gwasanaeth Prawf ar 25 Ionawr 2010 er mwyn gallu ysgrifennu adroddiad torri mechnïaeth. Hwn oedd ei gyfarfod cyntaf â'r Gwasanaeth Prawf ers ei sesiwn sefydlu yn ôl ym mis Mawrth 2009. Cododd Mr J bryderon ynglŷn â'r warant arestio, gan iddo fod mewn cyswllt â'r heddlu sawl gwaith dros y naw mis cynt, pryd y dywedwyd wrtho nad oedd unrhyw warant i'w arestio. Dywedodd Mr J wrth y Swyddog Prawf hefyd ei fod wedi treulio amser fel claf mewnol yn Ysbyty'r Eglwys Newydd a'i fod wedi ei ryddhau gyda diagnosis o anhwylder personoliaeth; dywedodd nad oedd Ysbyty'r Eglwys Newydd yn gallu gwneud dim i'w helpu.

1.53 Lluniodd rheolwr troseddwy Mr J yr adroddiad torri mechnïaeth. Mae'r cofnodion hefyd yn nodi bod Mr J wedi dweud yn ystod y trafodaethau gyda'r Rheolwr Troseddwy ei fod am adael y wlad a byw yn Israel. Dywedodd Mr J hefyd ei fod yn gallu cyfathrebu ag ysbrydion. Roedd yr adroddiad torri mechnïaeth yn nodi:

'Nid yw'r Gwasanaeth Prawf yn credu y bydd llawer o gydymffurfio â'r gorchymyn, os yw'n parhau, ac argymhellir y dylid ei ddiddymu a gweithredu'r ddedfryd ohiriedig er mwyn i Mr J allu derbyn asesiad seiciatrig pan fydd yn y ddalfa.'

1.54 Ar 1 Chwefror 2010 ymddangosodd Mr J yn y llys. Er hyn, gohiriwyd yr achos llys tan 15 Chwefror 2010, er mwyn cynnal adolygiad cyn yr achos, yn dilyn cais gan

gyfreithiwr Mr J i roi amser iddo gasglu tystiolaeth i gefnogi honiad Mr J ei fod yn yr ysbyty ar y dyddiadau yr oedd wedi colli ei apwyntiadau â'r Gwasanaeth Prawf. Sefydlwyd yn hwyrach bod Mr J wedi colli ei apwyntiadau gyda'r Gwasanaeth Prawf a bod y warant i'w arestio wedi'i chyflwyno cyn i Mr J gael ei dderbyn i Ysbyty'r Eglwys Newydd.

1.55 Yn yr adolygiad cyn yr achos a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2010, gofynnodd cyfreithiwr Mr J am ohirio eto er mwyn gallu cael adroddiad seiciatrig cyfredol. I roi amser i'r asesiad seiciatrig gael ei gynnal, gohiriodd y Llys yr achos eto tan 8 Mawrth 2010.

1.56 Ar ôl ei ymddangosiad yn y llys ar 25 Ionawr 2010, daeth Mr J i dri apwyntiad arall gyda'r gwasanaeth prawf ar 5, 9 a 16 Chwefror 2010. Yn ystod yr apwyntiadau hyn, nodwyd bod Mr J yn gwneud honiadau '*rhyfedd*' ynglŷn â'r ffaith ei fod yn gyfryngwr ysbrydion a'i fod yn gallu aflonyddu ar bobl yn eu breuddwydion. Honnodd Mr J y byddai'n gwrthod unrhyw ymyriad seiciatrig gan ei fod yn teimlo y gallai ymdopi â'i broblemau ar ei ben ei hun. Ar yr adeg hon, roedd y Gwasanaeth Prawf yn ymwybodol fod cyfreithiwr Mr J yn trefnu iddo dderbyn asesiad seiciatrig ac felly ni chysylltwyd â'r gwasanaethau iechyd meddwl.

1.57 Ar 23 Chwefror 2010, daeth Mr J i'w apwyntiad olaf gyda'r Gwasanaeth Prawf cyn y drosedd berthnasol. Yn ystod y cyfarfod hwn, honnodd Mr J ei fod yn anghyfforddus yn hostel y YMCA gan ei fod yn teimlo'n ymosodol tuag at y preswylwyr eraill. Gofynnodd am gael symud allan o'r hostel i fyw gyda ffrind (Mrs A) yr oedd yn honni ei bod yn gyn nyrs. Cytunodd y Gwasanaeth Prawf i archwilio'r posibilrwydd hwn oherwydd yr aflonyddwch yr oedd Mr J yn ei achosi ymhlith preswylwyr yr hostel.

1.58 Cysylltodd y Gwasanaeth Prawf â'r Llys a derbyn cadarnhad y gellid cyflwyno cais i amrywio amodau preswyluo Mr J o dan y fechnïaeth amodol. Er hyn, cynghorodd y llysoedd y byddai angen i Mr J wneud cais trwy ei gyfreithiwr i wneud hyn. Dywedwyd wrth Mr J hefyd na fyddai'n bosibl newid ei gyfeiriad mechnïaeth tan fod rhywun wedi siarad â Mrs A a chynnal asesiad o addasrwydd y breswylfa, a bod

angen iddo aros yn ei breswylfa bresennol, sef hostel y YMCA, nes i'r amrywiad gael ei gymeradwyo.

1.59 Ni weithredwyd ac ni chymeradwywyd y cais i amrywio preswylfa gan y llysoedd gan nad oedd y Gwasanaeth Prawf na chyfreithiwr Mr J wedi gallu cysylltu â'r ffrind (Mrs A) i'w hysbysu am hanes iechydd meddwl a fforensig Mr J ac i ofyn iddi a fyddai'n parhau i fod yn barod i gytuno i Mr J ddod i fyw gyda hi. Gohiriodd y llys y mater hwn tan 8 Mawrth 2010 i roi amser i gyfreithiwr Mr J siarad â Mrs A.

1.60 Symudodd Mr J allan o hostel y YMCA ar 23 Chwefror 2010 (ar yr un diwrnod â'i apwyntiad olaf â'r Gwasanaeth Prawf). Roedd hyn yn groes i gyfarwyddyd y Llys ei fod i aros yn yr hostel nes i'w gais i amrywio ei breswylfa gael ei gymeradwyo. Rhoddodd Mr J gyfeiriad yn ardal Thornhill o Gaerdydd i Hostel y YMCA fel ei breswylfa newydd. Nid oedd y Gwasanaeth Prawf yn ymwybodol bod Mr J eisoes wedi symud i mewn gyda Mrs A, a gwnaed ymdrech arall i gysylltu â Mrs A ar 1 Mawrth 2010 ond ni chafwyd ymateb. Mae'r cofnodion yn nodi bod llawer iawn o alwadau ffôn wedi'u gwneud i'r cyfeiriad a ddarparwyd; ond bod y rhif ffôn yn brysur drwy'r adeg. Credir erbyn 1 Mawrth fod Mr J eisoes wedi lladd Mrs A.

Cefndir Mrs A

1.61 Roedd Mrs A yn fenyw 52 mlwydd oed gyda dau blentyn sy'n oedolion. Roedd yn gyn nyrs a oedd wedi gweithio yn yr uned arenneg ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro ac roedd wedi chwarae rhan allweddol a llwyddiannus wrth sefydlu'r gwasanaeth dialysis yn y cartref ar gyfer yr ardal.

1.62 Roedd Mrs A yn hysbys i'r gwasanaethau iechydd meddwl ers 1991. Cafodd ei derbyn yn wreiddiol ag iselder ar ôl i'w phriodas chwalu, a derbyniodd gwrs o driniaeth ECT²¹.

²¹ Mae therapi electrogynhyrfol (ECT) yn driniaeth seiciatrig ar gyfer iselder lle y defnyddir trydan i achosi i glaf gael trawiadau dan anaesthetig er mwyn creu effaith therapiwtig.

1.63 Yn gynnar yn 2009, derbyniwyd Mrs A i dŷ argyfwng yn dilyn ymgais i hunan-niweidio pan oedd wedi meddwi. Ar ôl iddi gael ei rhyddhau, aeth yn ôl i'w gwaith. Er hyn, roedd y profiad o fynd yn ôl i'w gwaith yn anodd iddi ac aeth yn sâl eto. Derbyniwyd Mrs A i uned dadwenwyno alcohol ar 28 Ebrill 2009 a chafodd ei throsglwyddo'r diwrnod canlynol i Ward 2A y Dwyrain yn Ysbyty'r Eglwys Newydd.

1.64 Trwy gydol 2009 ac yn y misoedd hyd at ei marwolaeth, cafodd Mrs A ei derbyn i ysbyty ar sawl achlysur oherwydd ei hanafiadau yn sgil hunan-niweidio ar ôl yfed alcohol. Roedd ymddygiad Mrs A yn mynd yn fwy anwadal; ac roedd ei theulu'n pryderu'n gynyddol am ei lles a'i chyfeillgarwch â Mr J.

Perthynas Mr J a Mrs A

1.65 Fel y nodwyd eisoes, cyfarfu Mr J a Mrs A am y tro cyntaf ym mis Mai 2009 pan dderbyniwyd y ddau i Ward 2A y Dwyrain yn Ysbyty'r Eglwys Newydd. Roedd Mrs A eisoes yn glaf ar y ward pan dderbyniwyd Mr J. Yn ystod ein trafodaethau gyda'r staff, roedd llawer ohonynt yn cydnabod bod Mrs A yn rhan o'r grŵp o fenywod yr oedd Mr J yn aml yn eistedd ac yn sgwrsio gyda nhw. Trwy gydol cyfnod Mr J fel claf mewnol, gwelwyd Mr J a Mrs A gyda'i gilydd yn aml, i ffwrdd o'r grŵp, ond roedd y staff yn ystyried y berthynas yn un blatonig a phriodol.

1.66 Honnir bod Mr J a Mrs A mewn cyswllt rheolaidd ar ôl i Mrs A gael ei rhyddhau ar 22 Mehefin 2009. Roedd sïon hefyd, ymhlith eu cyd gleifion, bod Mr J yn byw gyda Mrs A yn ystod rhan o'r amser hwn. Dangosodd ein hadolygiad o gofnodion Mrs A ei bod wedi dod i'r adran damweiniau ac achosion brys ar 28 Mehefin 2009 ar ôl ymgais i hunan-niweidio. Mae'r cofnodion yn nodi bod '*ffrind*' wedi dod â Mrs A i'r ysbyty a rhoddwyd manylion Mr J fel perthynas agosaf. Mae Mr J wedi llofnodi'r cofnod perthynas agosaf hefyd.

1.67 Aildderbyniwyd Mrs A i Ysbyty'r Eglwys Newydd ar 22 Gorffennaf 2009. Pan ganiatawyd iddi fynd adref am gyfnod ar 6 Hydref 2009 roedd Mrs A wedi hunan-niweidio ac wedi mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys. Cafodd Mrs A ei thrin am ei hanafiadau hunan-niweidio a chafodd ei throsglwyddo yn ôl i Ward 2A y

Dwyrain yn Ysbyty'r Eglwys Newydd a chafodd ei rhyddhau ar 19 Hydref 2009. Mae'n anodd penderfynu'n union faint o gyswllt a fu rhwng Mr J a Mrs A rhwng mis Hydref 2009 a mis Ionawr 2010.

1.68 Derbyniwyd Mrs A i Ysbyty Llandochau ar 5 Rhagfyr 2009 ar ôl digwyddiad arall yn ymwneud ag alcohol a chafodd ei throsglwyddo yn dilyn hynny i Ysbyty'r Eglwys Newydd ar 8 Rhagfyr 2009 i dderbyn triniaeth. Rhyddhawyd Mrs A ar 11 Rhagfyr 2009, ond cafodd ei derbyn i Ysbyty'r Eglwys Newydd eto ar 15 Ionawr 2010 ar ôl digwyddiad arall o hunan-niweidio. Hwn fyddai'r tro olaf i Mrs A gael ei derbyn i Ysbyty'r Eglwys Newydd.

1.69 Yn ystod y cyfnod hwn pan oedd yn Ysbyty'r Eglwys Newydd, cyfaddefodd Mrs A wrth y staff ei bod yn edrych ymlaen at adael yr ysbyty gan fod '*ffrind*' yn symud i mewn gyda hi. Er bod sïon ymhlith y cleifion mai Mr J oedd y ffrind, nid oedd gan y staff dystiolaeth gadarn o hynny.

1.70 Dros y penwythnos cyn y drosedd berthnasol (20/21 Chwefror 2010), roedd Mrs A yn parhau i fod yn glaf mewnol yn Ysbyty'r Eglwys Newydd a daeth Mr J i'r ward i'w gweld. Treuliodd y ddau amser gyda'i gilydd yn y ganolfan ddydd gyda chaniatâd y staff nyrsio. Ar 22 Chwefror 2010 cofnodwyd bod Mrs A yn ofidus ar ôl cael sgwrs gyda'i merch. Mae'n ymddangos bod hyn oherwydd i ferch Mrs A fynegi pryder bod Mr J yn aros yn nhŷ Mrs A pan yr oedd hi yn yr ysbyty. Ar yr adeg hon, datgelodd Mrs A i'r staff bod Mr J wedi aros yn ei thŷ tra'r oedd hi yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys ym mis Hydref 2009.

1.71 Ar 26 Chwefror 2010 caniatawyd i Mrs A ddod adref am gyfnod, yn dilyn adolygiad gyda'i hymgynghorwr pan ddywedodd ei bod yn gadarnhaol ac yn optimistaidd gan ofyn i gael ei rhyddhau. Cyfaddefodd Mrs A wrth y staff nyrsio ac i'w clinigwr bod '*ffrind*' yn symud i mewn gyda hi. Caniatawyd i Mrs A fynd adref ar y ddealltwriaeth ei bod yn mynd i grŵp rheoli hwyliau ar y dydd Llun canlynol (1 Mawrth 2010) ac yn dychwelyd i'r ward erbyn dydd Mawrth (2 Mawrth 2010).

1.72 Siaradodd Mrs A ag aelod o'r teulu fore Sul 28 Chwefror 2010 ac roeddent wedi trefnu i gyfarfod fore dydd Llun. Fodd bynnag, pan gyrhaeddodd dŷ Mrs A fore

dydd Llun, ni chafodd yr aelod o'r teulu ymateb yn y tŷ nac ar y ffôn. Nid oedd Mrs A wedi bod i'r grŵp rheoli hwyliau yn yr ysbyty'r diwrnod hwnnw ychwaith. Ceisiodd y staff nyrsio ar Ward 2A y Dwyrain gysylltu â hi sawl gwaith, ond heb lwyddiant.

1.73 Ni ddychwelodd Mrs A i Ysbyty'r Eglwys Newydd ar 2 Mawrth 2010 a dechreuodd y staff bryderu am ei lles gan geisio cysylltu â hi ar y ffôn. Gan eu bod yn pryderu'n gynyddol am Mrs A, galwyd yr heddlu ar 2 Mawrth 2010 i ofyn iddynt fynd i sicrhau lles Mrs A. Yn drist, canfu'r heddlu bod Mrs A wedi marw pan aethant i'w chartref ar 2 Mawrth 2010.

Ar ôl y Drosedd Berthnasol

1.74 Ar ôl y drosedd berthnasol ciliodd Mr J o ardal Caerdydd a theithio i'r Drenwydd ym Mhowys. Pan oedd yn y Drenwydd, cysylltodd Mr J â'r Gwasanaeth Prawf i roi gwybod bod rhywbeth ofnadwy wedi digwydd yng nghyfeiriad Mrs A ac y dylid anfon yr heddlu i'w chartref. Ildiodd Mr J ei hun i'r heddlu yng ngorsaf heddlu'r Drenwydd ar 3 Mawrth 2010 lle y cafodd ei arestio.

1.75 Ar 4 Mawrth 2010 cafodd Mr J ei asesu gan Seiciatrydd Ymgynghorol o'r Gwasanaethau Diogelwch Isel pan oedd yn y ddalfa yng ngorsaf yr heddlu ym Mae Caerdydd. Nododd yr ymgynghorwr nad oedd Mr J *'yn dangos unrhyw arwydd o gyffro na phwysau amlwg a chafwyd cyswllt llygaid da trwy gydol yr asesiad'* ond roedd yr ymgynghorydd o'r farn bod seicosis Mr J yn llwyr ddatblygedig *'yn yr ystyr ei fod yn disgrifio system rithdybiol benodol'*. Disgrifiodd y cofnod o'r asesiad fod Mr J hefyd *'yn hynod o fawreddog ac yn disgrifio rhithweledigaethau clywedol ail a thrydydd person yn ogystal â rhithweledigaethau gweledol a chorfforol'*²².

1.76 Cafodd Mr J ei remandio i Garchar EM Caerdydd a'i drosglwyddo i'r cyfleuster gofal iechyd lle y cafodd asesiad arall gan seiciatrydd fforensig ar 8 Mawrth 2010. Argymhellodd y Seiciatrydd Fforensig fod angen trosglwyddo Mr J ar frys i uned diogelwch canolog o leiaf. Cysylltodd y seiciatrydd fforensig ag Ysbyty Arbennig

²² Mae rhithweledigaeth gorfforol yn rithweledigaeth sy'n cynnwys canfyddiad o brofiad corfforol o fewn y corff.

Ashworth²³ i gael barn ynglŷn â'i faterion risg a'i gyflwr meddyliol ac wedi derbyn eu sylwadau, trosglwyddwyd Mr J ar 11 Mai 2010 i Ysbyty Ashworth dan adran 48/49 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Wedi hynny, cafodd Mr J ddiagnosis o sgitsoffrenia paranoiaidd gan yr ymgynghorydd fforensig yn Ysbyty Ashworth.

Rheoli a Threfnu Gwasanaethau

Trefniadau ar gyfer Darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl yng Nghymru

1.77 Aildrefnwyd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru yn 2003. O ganlyniad i hyn, dilëwyd Awdurdodau Iechyd Cymru a sefydlwyd Ymddiriedolaethau GIG a Byrddau Iechyd Lleol

1.78 Aildrefnwyd GIG Cymru eto ym mis Hydref 2009 gan gyfuno Ymddiriedolaethau'r GIG a'r Byrddau Iechyd Lleol i greu saith Bwrdd Iechyd. Cafodd Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg eu disodli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

1.79 Pan yr oedd Mr J yn ymwneud â'r gwasanaethau iechyd meddwl, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro oedd yn gweithredu Ysbyty'r Eglwys Newydd a'r cyfleuster gofal eilaidd, a Bwrdd Iechyd Caerdydd oedd yn comisiynu'r gwasanaethau gofal sylfaenol.

Ysbyty'r Eglwys Newydd

1.80 Yn ystod 2009-2010 roedd Ysbyty'r Eglwys Newydd yn Ysbyty Seiciatrig yn ardal yr Eglwys Newydd o Gaerdydd. Roedd gwasanaethau Ysbyty'r Eglwys Newydd yn cynnwys Seiciatreg Gyffredinol Oedolion, Seiciatreg yr Henoed, Niwroseiciatreg a Seiciatreg Diogelwch Isel/Fforensig yn ogystal â Gwasanaethau Adsefydlu a Dibyniaeth. Gweithredir Ysbyty'r Eglwys newydd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro bellach.

²³ Mae Ysbyty Arbennig Ashworth yn ysbyty seiciatrig diogelwch uchel yng Nghlannau Mersi, Lloegr. Gweithredir Ysbyty Ashworth gan Ymddiriedolaeth GIG Mersey Care.

Y Gwasanaeth Prawf

1.81 Darperir y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru gan Ymddiriedolaeth Prawf Cymru a ffurfiwyd ar 1 Ebrill 2010 ar ôl uno'r pedair ardal/Ymddiriedolaeth Prawf flaenorol yng Nghymru. Mae'r Ymddiriedolaeth Prawf yn gweithio mewn 22 o Awdurdodau Lleol, saith Bwrdd Iechyd a phedwar ardal Heddlu.

1.82 Mae Ymddiriedolaeth Prawf Cymru yn gweithio gyda throseddwyd 18 mlwydd oed a hŷn sydd wedi eu dedfrydu gan y Llysoedd i orchymyn cymunedol, gorchymyn dedfryd ohiriedig neu wedi eu rhyddhau ar drwydded o'r carchar i barhau â'u dedfryd yn y gymuned.

Pennod 2 Canfyddiadau

A Ellid Bod Wedi Rhagweld y Lladdiad a Gyflawnwyd gan Mr J?

2.1 Mae'n glir fod iechyd meddwl Mr J, erbyn amser y drosedd berthnasol, wedi dirywio'n sylweddol i'r graddau y dywedwyd, tra ei fod yn y ddalfa yn dilyn y lladdiad, bod ei seicosis yn llwyr ddatblygedig. Er ei fod wedi treulio amser fel claf mewnol yn Ysbyty'r Eglwys Newydd yn ystod mis Mai 2009 nid oedd Mr J yn flaenorol wedi cael diagnosis ei fod yn dioddef o salwch meddwl.

2.2 Yn dilyn cyfnod cymharol fyr (cyfanswm o 12 diwrnod) a thameidiog fel claf mewnol (oherwydd ei fod yn cael gofal ar dair ward wahanol) cafodd Mr J ddiagnosis fod ganddo anhwylder personoliaeth a chafodd ei ryddhau ar 14 Mai 2009 heb i'r gwasanaethau iechyd drefnu na chynllunio unrhyw ofal neu driniaeth yn y dyfodol.

2.3 Cyfarfu Mr J â Mrs A am y tro cyntaf yn ystod ei gyfnod yn Ysbyty'r Eglwys Newydd ym mis Mai 2009. Mae'n ymddangos fod peth amwysedd o ran union natur eu perthynas. Nid oedd rhai aelodau o'r staff yn ymwybodol o unrhyw berthynas, ond roedd eraill yn ymwybodol fod Mr J a Mrs A wedi bod yn rhyngweithio ac yn cwrdd yn achlysurol ar ôl rhyddhau Mr J o'r Eglwys Newydd.

2.4 Roedd asesiad risg a gynhaliwyd yn ystod cyfnod Mr J yn ysbyty'r Eglwys Newydd yn nodi ei fod mewn perygl o hunan-niweidio, ac yn cyflwyno risg o niwed i gleifion eraill neu i staff. Hefyd roedd Mr J yn flaenorol wedi ymosod yn dreisgar ar ffermwr ar 9 Rhagfyr 2008, fodd bynnag mae'n ymddangos fod bygythion Mr J neu ei weithredoedd treisgar yn cael eu cyfeirio tuag at ddynion fel y nodir yn ei asesiad cychwynnol ar ôl iddo gyrraedd Ysbyty'r Eglwys Newydd (gweler paragraff 1:23). Nid oedd tystiolaeth i nodi ei fod yn dreisgar nac yn fygythiol tuag at Mrs A na menywod yn gyffredinol, felly rydym yn ystyried na ellid bod wedi rhagweld lladdiad Mrs A.

2.5 Pe byddai ymgais mwy pendant a llai tameidiog wedi'i wneud gan wasanaethau lechyd a Statudol gael gwell dealltwriaeth o'r risgiau yr oedd Mr J yn eu peri, rydym o'r farn y gellid bod wedi atal y lladdiad a gyflawnwyd o bosibl.

2.6 Roedd diffyg eglurder o ran union statws y warant arestio a gyhoeddwyd ar 27 Ebrill 2009. Yn nodedig, collwyd nifer o gyfleoedd i weithredu'r warant hon yn ystod 2009. Yn benodol:

- Rhwng caniatáu'r warant arestio ar 27 Ebrill 2009 a'i dderbyn i Ysbyty'r Eglwys Newydd ar 2 Mai 2009, roedd Mr J yn byw yn yr hostel fechnïaeth a neilltuwyd iddo. Mae cofnodion yn dangos yn glir bod preswylwyr yn yr hostel wedi cysylltu â'r gwasanaeth ambiwlans pan oedd Mr J wedi torri ei arddwrn.
- Tra ei fod yn Ysbyty'r Eglwys Newydd rhwng 2 Mai 2009 a 14 Mai 2009, hysbyswyd y Gwasanaeth Prawf ar 5 Mai 2009 fod Mr J wedi cael ei dderbyn fel claf, ac fe'i hysbyswyd ar 15 Mai 2009 ei fod wedi cael ei ryddhau.
- Roedd swyddogion o heddlu De Cymru mewn cysylltiad ag Ysbyty'r Eglwys Newydd tra'r oedd Mr J yn glaf mewnol. Ar 7 Mai 2009 cysylltodd swyddog o heddlu De Cymru â Ward 2A y Dwyrain ynghylch e-bost yr honnwyd i Mr J yn ei anfon at gyfryngwr ysbrydion ac eglwys ysbrydegol, ac mae'r cofnodion yn dangos bod y swyddog wedi cael ei hysbysu o'r warant i arestio Mr J. Hefyd, hysbyswyd yr heddlu ar 14 Mai 2009 bod Mr J wedi cael ei ryddhau'r diwrnod hwnnw.
- Aeth swyddogion o heddlu De Cymru i'r adran damweiniau ac achosion brys ar 24 Tachwedd 2009 pan dderbyniwyd Mr J oherwydd gorddos. Dywedodd aelodau'r o'r tîm Argyfwng wrth swyddogion am y warant arestio a gwnaethant gadarnhau hyn gyda'r Gwasanaeth Prawf; fodd bynnag nid oedd cyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu wedi dangos gwarant arestio weithredol ar ei gyfer.
- Mae cofnodion yn nodi bod Heddlu De Cymru, ar 30 Tachwedd 2009, wedi cael eu hysbysu trwy'r rhwydwaith gwybodaeth bod Mr J yn preswyllo yn yr hostel YMCA.
- Cysylltodd gweithiwr cymorth y YMCA â'r Gwasanaeth Prawf ar 21 Rhagfyr 2009 yn hysbysu'r Rheolwr Troseddwyr bod Mr J yn preswyllo yn yr Hostel.

Cynghorwyd Mr J gan y gwasanaeth prawf i'w roi ei hun yn nwylo'r awdurdodau, ac fe wnaeth hynny ar 18 Ionawr 2010.

Nid ydym wedi gallu sefydlu pam na chafodd y warant ei gweithredu.

2.7 Rydym o'r farn bod gwasanaethau wedi colli cyfleoedd i ymgysylltu'n briodol â Mr J ar adegau amrywiol.

2.8 Wrth geisio nodi'r achosion sylfaenol a arweiniodd at farwolaeth drasig Mrs A rhwng 28 Chwefror a 2 Mawrth 2010, mae'r tîm adolygu wedi ystyried y cyfnodau o ymgysylltu a gafodd Mr J â gwasanaethau statudol. Caiff y rhain eu disgrifio yn yr adrannau canlynol.

Amser Mr J yn Ysbyty'r Eglwys Newydd

2.9 Nid oedd Mr J wedi dod i gysylltiad â'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl tan iddo gael ei dderbyn i Ysbyty'r Eglwys Newydd ddydd Sadwrn 2 Mai 2009. Cafodd ei dderbyn dros benwythnos gŵyl y banc ar ôl cael ei asesu yn yr adran Damweiniau ac Achosion Brys gan y Tîm Argyfwng yn dilyn ymgais i gyflawni hunanladdiad. Siaradodd am ei allu honedig i glywed lleisiau ac i weld '*ysbrydion*'. Siaradodd Mr J hefyd am ymgeisiau blaenorol i gyflawni hunanladdiad a'i deimlad o fod yn isel. Achosodd hyn bryder ac felly cafodd ei dderbyn i Ysbyty'r Eglwys Newydd fel claf anffurfiol. Cafodd ei roi ar ward aciwt gymysg, Ward 2A y Dwyrain.

2.10 Roedd amwysedd dros bwy fyddai ei Glinigydd Cyfrifol ar y cychwyn, ar ôl ei dderbyn. Roedd hyn oherwydd ei bod yn benwythnos gŵyl y banc a'r ffaith fod Mr J wedi cael ei roi ar y rota i bobl heb gartref sefydlog (NFA). Roedd y clinigwr a ddylai fod wedi cymryd cyfrifoldeb am Mr J ar gyfnod o absenoldeb, fodd bynnag, oherwydd rhesymau personol. Achosodd hyn oedi o bum niwrnod cyn cael asesiad i Mr J gan Glinigydd Cyfrifol.

2.11 Ar ôl ei dderbyn i Ysbyty'r Eglwys Newydd, gwadodd Mr J iddo gael rhagor o feddyliau ynglŷn â chyflawni hunanladdiad neu fod ag unrhyw broblemau iechyd

meddwl ac arsylwyd ei fod yn dawel ac yn briodol. Aseswyd Mr J i ddechrau gan yr Uwch Swyddog Preswyl ar 2 Mai 2009, a'i argraff gyntaf o Mr J oedd ei fod yn cyflwyno â symptomau seicotig ac annhrefn meddwl.

2.12 Aseswyd Mr J gan ei Glinigydd Cyfrifol am y tro cyntaf ar 7 Mai 2009, bum niwrnod ar ôl ei dderbyn i'r ysbyty. Fe'i gwelwyd yn ystod rownd ward y Clinigydd Cyfrifol, ac yn dilyn ei asesiad cychwynnol cofnododd ei fod yn ystyried fod Mr J yn dangos symptomau seicotig a'i bod yn ymddangos fod ganddo gredoau rhithdybiol. Wedyn gofynnodd y Clinigydd Cyfrifol am farn fforensig gan Wasanaeth Diogelwch Isel y Bwrdd Iechyd.

2.13 Dros gyfnod o un penwythnos, cafodd Mr J ei drosglwyddo i dair ward wahanol. Fe'i symudwyd am y tro cyntaf ar 9 Mai 2009 pan ddaeth yn gythryblus ac yn ymosodol yn eiriol yn dilyn dadl gyda chlaf arall. Trosglwyddwyd Mr J i'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Cafodd Mr J ei asesiad risg cyntaf ar ôl ei dderbyn i'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig, a hwn oedd yr unig un iddo'i dderbyn. Nodwyd yn yr asesiad risg, a gwblhawyd gan nyrs brofiadol, bod Mr J mewn perygl o hunan-niweidio ac o mewn perygl o niweidio cleifion eraill a staff. Nododd yr asesiad fod Mr J, pan oedd yn cael ei herio, yn anghyfforddus a'i fod wedi gwneud bygythiadau i niweidio pobl ac ar un achlysur roedd wedi bygwth '*lladd*' rhywun os nad oedd yn cael ei symud.

2.14 Ni allem ganfod unrhyw dystiolaeth o sut y defnyddiwyd yr asesiad hwn i lywio neu i ddylanwadu ar ofal a rheolaeth Mr J yn ystod ei amser yn Ysbyty'r Eglwys Newydd. Nid oedd yn ymddangos bod yr asesiad risg hwn wedi cael ei werthuso a'i ystyried yn llawn gan glinigwyr, ac yn arwyddocaol ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth i gynllun gofal erioed gael ei ddatblygu ar gyfer Mr J.

2.15 Tra ei fod yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig daeth Mr J yn gythryblus ac yn ymosodol yn eiriol, ac ar un pwynt gwnaeth fygythiad i "*ladd*" rhywun os na fyddai'n cael ei symud yn ôl i'w ward gychwynnol. O ganlyniad cafodd ei roi dan Adran 5(2) o'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'i drosglwyddo eto, y tro hwn i Ward 3 y Gorllewin, uned diogelwch isel i ddynion yn unig.

2.16 Mae'r ffaith iddo gael ei symud ar draws tair ward yn ystod cyfnod o un penwythnos wedi ein harwain i ddod i'r casgliad bod gofal Mr J yn Ysbyty'r Eglwys Newydd yn dameidiog ac rydym yn cwestiynu sut y gellid bod wedi cael asesiad llawn o'i iechyd meddwl. Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at ddyddiadau ei drosglwyddo ar draws bob ward:

Dyddiad	Ward
Dydd Sadwrn 2 Mai 2009	2A y Dwyrain
Dydd Sadwrn 9 Mai 2009	Uned Gofal Dwys Seiciatrig
Dydd Sul 10 Mai 2009	3 y Gorllewin
Dydd Llun 11 Mai 2009	2A y Dwyrain
Dydd Iau 14 Mai 2009	Rhyddhawyd

2.17 Aseswyd Mr J eto ddydd Llun 11 Mai 2009 gan ei Glinigydd Cyfrifol. Mae cofnodion yn nodi na fu unrhyw newid yng nghyflwr meddwl Mr J ers yr asesiad blaenorol a gynhaliwyd ar 7 Mai 2009. Fodd bynnag, nododd y Clinigydd Cyfrifol hefyd yn yr un asesiad ei fod yn teimlo nad oedd ymddygiad presennol Mr J yn cael ei ddylanwadu gan unrhyw seicopatholeg, nad oedd y lleisiau yn rhoi gorchmynion ac nad oedd Mr J yn cael ei ddylanwadu ganddynt. Dywedwyd hefyd nad oedd gan Mr J unrhyw gredoau rhithdybiol. Mae'r asesiad hwn yn wahanol iawn i'r un a gynhaliwyd gan yr un Clinigydd Cyfrifol ar 7 Mai er ei fod wedi nodi mai ychydig o newid a fu yng nghyflwr meddwl Mr J.

2.18 Gwelodd clinigydd o'r Gwasanaeth Diogelwch Isel Mr J ar 14 Mai 2009. Siaradodd y clinigwr hwn â staff nyrsio ar Ward 2A y Dwyrain a ddywedodd bod Mr J, ers iddo ddychwelyd i'r ward, wedi bod yn briodol, yn dawel ac yn rhyngweithio'n dda â chleifion eraill. Barn y staff nyrsio oedd nad oedd yn dangos symptomau salwch meddwl. Cytunodd y clinigwr â barn Clinigydd Cyfrifol Mr J nad oedd yn ymddangos fod gan Mr J salwch seicotig nac arwyddion clir o drallod. Argymhellodd y clinigwr fod Mr J yn cael ei ryddhau o'r ysbyty. Cofnododd y clinigwr ei farn yn ffurfiol mewn llythyr a anfonwyd at y Clinigydd Cyfrifol ar 28 Mai 2009, bedwar diwrnod ar ddeg ar ol i Mr J gael ei ryddhau.

2.19 Cafodd Mr J ei ryddhau o'r ysbyty ar 14 Mai 2009 gan yr Uwch Swyddog Preswyl (clinigwr) ar gyngor a chyfarwyddyd y Clinigydd Cyfrifol, heb drefnu unrhyw

apwyntiad dilynol na meddyginiaeth. Cafodd ei ryddhau heb fod ganddo gartref sefydlog a dywedwyd wrtho am gofrestru fel rhywun digartref. Diagnosis Mr J ar adeg ei ryddhau oedd fod ganddo anhwylder personoliaeth ac nid salwch meddwl y gellid ei drin. Ceir awgrym y dylai Mr J gael cynnig cyfraniad seicoleg i roi sylw i'w anhwylder personoliaeth, ond ni chanfuwyd tystiolaeth bod hyn erioed wedi cael ei drefnu.

2.20 Rhagdybiodd y Clinigydd Cyfrifol y byddai'r system cyfiawnder troseddol yn cymryd cyfrifoldeb am Mr J oherwydd y warant i'w arestio a oedd yn dal mewn grym.

2.21 Cysylltodd staff yn Ysbyty'r Eglwys Newydd â'r heddlu ar ddiwrnod rhyddhau Mr J i'w hysbysu ei fod yn gadael, ond ni hysbyswyd y Gwasanaeth Prawf tan 24 awr yn ddiweddarach. Dywedodd yr heddlu nad oedd gwarant arestio yn ymddangos ar gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu, fodd bynnag dywedwyd bod gwarant ar gael yn Llys Pontypridd. Ni chafodd Mr J ei arestio ar ôl ei ryddhau.

2.22 I grynhoi, roedd Mr J yn glaf mewnol yn Ysbyty'r Eglwys Newydd am 12 diwrnod, a chafodd ei symud rhwng tair gwahanol ward yn ystod y cyfnod hwn. Credwn nad oedd 12 diwrnod yn gyfnod digon hir i roi barn ystyriol ynglŷn â iechyd meddwl Mr J. Oherwydd bod Mr J wedi symud rhwng tair gwahanol ward yn ystod y 12 diwrnod, ni chymerodd yr un gweithiwr meddygol proffesiynol olwg cyffredinol, pendant ar ei ofal a'i driniaeth. Ni sefydlwyd cynllun gofal cyffredinol na Dull Rhaglen Ofal²⁴ ar gyfer Mr J, ac nid oedd yr asesiadau iechyd meddwl a gynhaliwyd yn drylwyr. Un asesiad risg yn unig a gynhaliwyd yn ystod ei gyfnod yn yr ysbyty, a nodwyd ynddo ei fod yn peri risg sylweddol i bobl eraill. Nid yw'n ymddangos bod hwn wedi cyfrannu at benderfyniadau dilynol ynglŷn â gofal Mr J, nac wedi dylanwadu arnynt.

2.23 Rydym yn credu y gellid bod wedi gwneud diagnosis gwahanol, yn hytrach nag '*anhwylder personoliaeth*', pe byddai mwy o ymdrech wedi'i wneud i ddeall problemau iechyd meddwl Mr J yn ystod ei amser yn Ysbyty'r Eglwys Newydd.

²⁴ System o ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol i unigolion â diagnosis o salwch meddwl yw'r Dull Rhaglen Ofal. Mae'r dull hwn yn mynnu bod gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn asesu anghenion, yn paratoi cynllun gofal ysgrifenedig ac yn neilltuo cydgysylltydd gofal. Yna dylent adolygu'r cynllun gyda rhanddeiliaid allweddol.

2.24 Yn gyffredinol, mae AGIC yn ystyried bod y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd i Mr J pan oedd yn glaf mewnol wedi bod yn annigonol. Yn benodol:

- Nid oedd unrhyw dystiolaeth yn dangos bod Mr J yn destun nac yn derbyn Dull Rhaglen Ofal pan oedd yn glaf mewnol.
- Ni chafodd Mr J asesiad risg pan gafodd ei dderbyn i Ysbyty'r Eglwys Newydd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai dim ond ar ôl cael ei dderbyn i'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig y cafodd asesiad risg.
- Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth bod yr asesiad risg a gynhaliwyd wedi dylanwadu ar y gofal a ddarparwyd i Mr J yn ystod ei amser yn Ysbyty'r Eglwys Newydd na'r penderfyniad i'w ryddhau.
- Nid ydym o'r farn bod digon o ymdrech wedi ei wneud i lunio barn gadarn am iechyd meddwl Mr J yn ystod y cyfnod o 12 diwrnod yr oedd yn glaf mewnol. Roedd ei amser yn Ysbyty'r Eglwys Newydd yn dameidiog ac ni pharatowyd unrhyw gynllun rheoli cyffredinol ar gyfer ei ofal na'i driniaeth.
- Barn seiciatrydd cyffredinol nid seiciatrydd fforensig a gafwyd gan yr ymgynghorydd yn y Gwasanaethau Diogelwch Isel.
- Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach o ganlyniad i'r awgrym y gallai Mr J elwa o gyfraniad seicolegol, yn rhannol gan fod Mr J wedi gwrthod cyfraniad pellach a'r defnydd o feddyginiaeth.
- I bob pwrpas, arweiniodd y diagnosis o anhwylder personoliaeth at y penderfyniad i ryddhau Mr J o Ysbyty'r Eglwys Newydd heb i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl gynllunio unrhyw ofal, triniaeth na chymorth pellach. Penderfynwyd nad oedd modd trin ei gyflwr.
- Cysylltodd Ysbyty'r Eglwys Newydd â'r heddlu, ond ni wnaeth y staff iechyd gysylltu â'r Gwasanaeth Prawf fel y gofynnwyd iddynt cyn ei ryddhau. Ni wnaethant gynnwys y Gwasanaeth Prawf yn y broses ryddhau ychwaith i sicrhau bod Mr J yn cael ei oruchwylio ar ôl cael ei ryddhau o'r ysbyty.
- Roedd y gwaith o gynllunio ar gyfer rhyddhau Mr J yn annigonnol. Nid oedd cynllun gofal eglur nac asesiad risg wedi'u sefydlu. Mae'n ymddangos bod y staff iechyd wedi cymryd y byddai'r Gwasanaeth Prawf neu'r heddlu yn cymryd drosodd wedi i Mr J gael ei ryddhau.

Ymweliad Mr J ag Ysbyty Athrofaol Cymru ym mis Tachwedd 2009 a Chyswilt Pellach â'r Gwasanaethau Iechyd

2.25 Cyswilt nesaf Mr J â'r Gwasanaethau Iechyd oedd pan ddaeth i adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Athrofaol Cymru ar 24 Tachwedd 2009 ar ôl honni ei fod wedi cymryd gorddos o ibuprofen. Cafodd ei asesu gan y Tîm Argyfwng. Roedd ei gofnodion iechyd meddwl ar gael i'r tîm, ac roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth am ei ryddhau o Ysbyty'r Eglwys Newydd chwe mis yn gynharach a'i ddiagnosis o anhwylder personoliaeth. Honnodd Mr J ei fod yn byw ar y stryd, ond roedd ei ymddangosiad yn eithaf trwsiadus. Mae'n amlwg bod Mr J yn dal i siarad am ei allu i weld a siarad ag '*ysbrydion*'; ond mae'r nodiadau'n dangos bod ei leferydd yn rhugl a thôn ei lais yn dda; roedd yn gallu cadw cyswilt llygaid, yn wahanol i rywun sy'n cael rhithweledigaethau clywedol neu weledol. Ar ôl gwerthuso'r holl wybodaeth a oedd ar gael ar eu cyfer, penderfynodd y Tîm Argyfwng y gallai Mr J fod yn ceisio cael ei dderbyn i ysbyty, ac roeddynt o'r farn na fyddai o fudd i Mr J gael ei dderbyn i ysbyty.

2.26 Daeth ymddygiad Mr J yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn afresymol a dirywiodd yn gyflym pan ddywedwyd wrtho na fyddai'n cael ei dderbyn, felly cysylltwyd â'r heddlu. Nid oedd swyddogion yr heddlu a ddaeth i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn gallu cadarnhau ar yr adeg honno a oedd Mr J yn destun gwarant arestio, gan nad oedd gwarant ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, er i'r Tîm Argyfwng gadarnhau'n gynharach gyda'r Gwasanaeth Prawf bod gwarant yn bodoli. O ganlyniad, ni chafodd Mr J ei arestio ac mae'n ymddangos ei fod wedi gadael yr adran Damweiniau ac Achosion Brys heb gartref sefydlog i fynd iddo.

2.27 Ar ôl gadael yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, cysylltodd Mr J â'r cydgysylltydd gwelyau argyfwng yn Tresillian House a chynigiwyd gwely argyfwng iddo mewn hostel YMCA lle bu'n byw tan 23 Chwefror 2010.

2.28 Dirywiodd ymddygiad Mr J pan oedd yn byw yn hostel y YMCA, ac o ganlyniad cysylltodd ei Weithiwr Cymorth â'r Tîm Argyfwng (y tîm a oedd wedi gweld

Mr J ym mis Tachwedd 2009 yn Ysbyty Athrofaol Cymru) ar ddau achlysur ar wahân; y cyntaf ar 15 Rhagfyr 2009 a'r ail ar 21 Rhagfyr 2009. Roedd y Gweithiwr Cymorth yn pryderu'n gynyddol am ymddygiad Mr J a'i honiadau parhaus ei fod yn gallu gweld a siarad ag *'ysbrydion'*.

2.29 Cyngor y Tîm Argyfwng i'r Gweithiwr Cymorth oedd y dylai sicrhau bod Mr J wedi ei gofrestru â Meddyg Teulu a fyddai'n gallu ei atgyfeirio i Dîm Iechyd Meddwl Cymunedol a chysylltu â'r Gwasanaeth Prawf.

2.30 Rydym o'r farn bod y Tîm Argyfwng, a gynhaliodd yr asesiad o Mr J yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol Cymru, wedi gwneud penderfyniad priodol yn gyffredinol i beidio â derbyn Mr J fel claf mewnol, yng nghydestun y wybodaeth a gyflwynwyd iddynt. *'Ar y llaw arall, hwn hefyd oedd y cyfle olaf i ailasesu Mr J a rhoi diagnosis arall ynglŷn â'i salwch'*.

2.31 O ran y cyswllt gan hostel y YMCA â'r Tîm Argyfwng ym mis Tachwedd, eto roedd y penderfyniadau a wnaethpwyd yn briodol o ystyried nad oedd Mr J yn glaf i'r gwasanaethau iechyd meddwl ar y pryd. Y prif fater i'w nodi er hyn yw ei bod yn annhebygol iawn y byddai Mr J yn cofrestru gyda'i Feddyg Teulu er mwyn cael ei atgyfeirio i'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol. Yn ôl y disgwyl, ni ddigwyddodd hyn ac o ganlyniad hwn oedd y tro olaf y cafodd Mr J unrhyw gyswllt â'r Gwasanaethau Iechyd cyn y drosedd berthnasol, lai na thri mis yn ddiweddarach.

2.32 I grynhoi rydym o'r farn:

- bod y Tîm Argyfwng wedi ymateb yn briodol pan ymddangosodd Mr J yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, ar sail y wybodaeth a oedd ar gael ar eu cyfer, ond na chymerwyd y cyfle hwn i asesu ac o bosibl i roi diagnosis arall i Mr J.
- bod amwysedd statws y warant yn golygu na chafodd Mr J ei ddal ar yr adeg hon a'i fod wedi gadael yr adran Damweiniau ac Achosion Brys heb i unrhyw wasanaeth statudol sefydlu unrhyw ofal, cymorth na goruchwyliaeth ar ei gyfer.

- na chymerwyd y cyfle i ailasesu Mr J ym mis Rhagfyr 2009 ar ôl y pryderon a godwyd gan y Gweithiwr Cymorth yn Hostel y YMCA, yn rhannol oherwydd y gofynnwyd i Mr J gofrestru gyda Meddyg Teulu er mwyn cael ei atgyfeirio i'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol.

Ymgysylltiad Mr J â'r Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf

2.33 Arestwyd Mr J ar 11 Chwefror 2009 ac ymddangosodd gerbron Llys Ynadon Casnewydd ar 18 Chwefror 2009 a'i gyhuddo o ymosodiad a arweiniodd at wir niwed corfforol, cymryd cerbyd heb ganiatâd a bwrghleriaeth. Cafodd ei roi ar remând mewn hostel fechnïaeth breifat yn ardal Caerdydd. Ar 12 Mawrth 2009 cafodd Mr J ddedfryd wedi'i gohirio am 18 mis gyda 18 mis o oruchwyliaeth gan y Gwasanaeth Prawf a gofyniad penodol iddo ymgysylltu â'r gwasanaethau iechyd meddwl.

2.34 Mae'r cofnodion yn dangos nad oedd ganddo unrhyw gollfarnau blaenorol ac nad oedd wedi dod i sylw Heddlu De Cymru cyn 7 Chwefror 2009.

2.35 Daeth Mr J i'w apwyntiad sefydlu cyntaf gyda'r Gwasanaeth Prawf ar 19 Mawrth 2009. Cafodd ei asesu gan ei Reolwr Troseddwyd a nodwyd ei fod yn berygl cymedrol i'r cyhoedd, neu Haen 2 ar eu system asesu troseddwyd. Er hyn, ar 17 Mawrth 2009, ar ôl ei apwyntiad sefydlu cyntaf, newidiwyd graddfa Mr J i Haen 3 o ran perygl i'r cyhoedd ar y system asesu troseddwyd oherwydd y ffaith iddo ymosod ar rywun gyda morthwyl ac achosi anaf. Nodwyd hefyd bod ganddo broblemau iechyd meddwl. Yn ôl y cofnodion a oedd ar gael, ar adeg ei apwyntiad sefydlu cyntaf gyda'r Rheolwr Troseddwyd, esboniwyd wrtho'r gofyniad yn amodau'r gwasanaeth prawf, bod angen iddo ymgysylltu â Nyrs Seiciatrig Gymunedol.

2.36 Er hyn, nid aeth Mr J i unrhyw apwyntiadau eraill gyda'r Gwasanaeth Prawf ac nid aeth i'w apwyntiad gyda'r Nyrs Seiciatrig Gymunedol ychwaith. O ganlyniad, cyflwynodd y Gwasanaeth Prawf gais am warant i arestio Mr J ar 27 Ebrill 2009 gan ei fod wedi torri amodau'r ddedfryd ohiriedig.

2.37 Tan iddo gael ei dderbyn i ysbyty'r Eglwys Newydd ar 2 Mai 2009, roedd Mr J yn byw yn yr hostel fechnïaeth yr oedd wedi ei remandio iddi. Dywedwyd wrth y Gwasanaeth Prawf ar 6 Mai 2009 bod Mr J wedi ei dderbyn i ysbyty'r Eglwys Newydd, bedwar diwrnod ar ôl ei dderbyn. Gofynnodd Rheolwr Achos y Gwasanaeth Prawf i'r ysbyty gysylltu â'r gwasanaeth prawf pan yr oedd Mr J yn barod i gael ei ryddhau.

2.38 Ni wnaeth y Gwasanaeth Prawf unrhyw ymdrech i ymgysylltu eto â Mr J tra'i fod yn Ysbyty'r Eglwys Newydd.

2.39 Rhyddhawyd Mr J o'r ysbyty ar 14 Mai 2009. Hysbyswyd yr heddlu ei fod wedi'i ryddhau; ond nid oedd yn eglur beth oedd statws y warant arestio ar y pryd. Nid oedd y warant gan yr heddlu ond roeddynt yn gallu datgelu ei bod gan y llys ym Mhontypridd. Hysbyswyd y Gwasanaeth Prawf bod Mr J wedi ei ryddhau o Ysbyty'r Eglwys Newydd ar 15 Mai.

2.40 O ran y warant arestio, ni chanfuwyd unrhyw wybodaeth a oedd yn awgrymu bod unrhyw asiantaeth wedi gwneud unrhyw ymgais i ddarganfod lle'r oedd Mr J rhwng y dyddiad y cafodd ei ryddhau o Ysbyty'r Eglwys Newydd ym mis Mai 2009 a'r dyddiad yr aeth i adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Athrofaol Cymru ym mis Tachwedd 2009. Er hyn, mae cofnodion heddlu De Cymru yn dangos bod swyddogion wedi ceisio dod o hyd i Mr J ynglŷn ag achos honedig o aflonyddu.

2.41 Ar ôl iddo fod yn Ysbyty Athrofaol Cymru ym mis Tachwedd 2009, cafodd Mr J lety yn Hostel y YMCA yng Nghaerdydd. Cysylltodd Gweithiwr Cymorth Mr J â'r Gwasanaeth Prawf ar 21 Rhagfyr 2009 (yn dilyn cyfarwyddiadau i wneud hynny gan y Tîm Argyfwng). Y cyngor a roddwyd gan y Gwasanaeth Prawf oedd y dylid annog Mr J i'w gyflwyno ei hun i'r heddlu oherwydd ei fod wedi torri amodau ei ddedfryd ohiriedig ac oherwydd y warant a oedd yn bodoli ar gyfer ei arestio.

2.42 Mae'r cofnodion hefyd yn dangos bod yr heddlu'n ymwybodol ei fod yn byw yn hostel y YMCA. Er hyn, er ei bod yn amlwg i AGIC bod y Gwasanaeth Prawf a'r heddlu'n ymwybodol o lle'r oedd Mr J yn preswyllo, ni chafodd ei arestio ac ni chysylltodd y Gwasanaeth Prawf ag ef tan iddo'i gyflwyno ei hun ar 18 Ionawr 2010.

Mae dryswch ynglŷn â phwy y cyflwynodd Mr J ei hun iddo gan nad yw'r cofnodion ond yn nodi ei fod wedi '*cyflwyno ei hun*' ac ymddangosodd yn llys yr ynadon ar yr un diwrnod. Rhoddwyd Mr J ar fechnïaeth amodol gan lys yr ynadon a'i anfon ar remánd i hostel y YMCA lle'r oedd eisoes yn byw.

2.43 Daeth Mr J i bedair sesiwn gyda'i Reolwr Troseddwyd yn y Gwasanaeth Prawf trwy gydol mis Ionawr a mis Chwefror 2010. Mae'r cofnodion yn dangos bod ymddygiad Mr J yn parhau i fod yn ansefydlog a'i fod yn parhau i honni ei fod yn clywed ac yn siarad ag '*ysbrydion*'. Cofnododd ei Reolwr Troseddwyd, ar ôl dau apwyntiad ar wahân, fod Mr J yn ymddwyn yn '*rhyfedd*'.

2.44 Ar 1 Chwefror 2010 argymhellodd y Gwasanaeth Prawf yn llys yr ynadon y dylid ailweithredu dedfryd ohiriedig Mr J er mwyn iddo allu derbyn asesiad seiciatrig tra'r oedd yn y ddalfa. Mae'n ymddangos bod yr argymhelliad hwn wedi'i ddiystyru gan i'r llys gael ei ohirio tan 15 Chwefror i ganiatáu i gyfreithiwr Mr J gael gwybodaeth ynglŷn â'r dyddiad yr oedd Mr J wedi'i dderbyn i'r ysbyty. Gohiriwyd yr achos eto tan 8 Mawrth 2010 i ganiatáu i gyfreithiwr Mr J gael adroddiad seiciatrig ar gyfer Mr J. Cyn ymddangos eto yn y llys, roedd Mr J wedi lladd Mrs A.

2.45 Roedd Mr J wedi arddangos ymddygiad rhyfedd yn ystod rhai o'i apwyntiadau gyda'i Reolwr Troseddwyd, gan godi pryderon ynglŷn â chyflwr ei iechyd meddwl. Er hynny, gan fod y Gwasanaeth Prawf yn ymwybodol bod Mr J wedi cael diagnosis o anhwylder personoliaeth a bod asesiad seiciatrig arall ar fin cael ei gynnal, ni chymerwyd unrhyw gamau i atgyfeirio Mr J i'r gwasanaethau iechyd meddwl am asesiad. Gallai'r Gwasanaeth Prawf fod wedi atgyfeirio Mr J i'r Nyrs Seiciatrig Gymunedol a oedd yn gweithio i'r Gwasanaeth Prawf, a byddai'r Nyrs wedi gallu cyfeirio Mr J i'r gwasanaethau iechyd priodol, pe byddai wedi penderfynu bod hynny'n briodol.

2.46 Rhwng ei ymddangosiad yn y llys ar 25 Ionawr 2010 a mynd i'r hyn a fyddai ei apwyntiad olaf gyda'r Gwasanaeth Prawf, gofynnodd Mr J i newid ei fan preswyl o'r hostel i gyfeiriad yn ardal Thornhill o Gaerdydd (Cartref Mrs A). Fodd bynnag, er mwyn gallu cymryd unrhyw gamau pellach, roedd yn rhaid i'r gwasanaeth prawf a chyfreithiwr Mr J gysylltu â pherchennog y cartref (Mrs A) i sicrhau ei bod yn

ymwybodol o hanes troseddol Mr J a'i broblemau iechyd meddwl ac i sefydlu a oedd yn hapus i Mr J symud i fyw gyda hi. Er hyn, symudodd Mr J allan o hostel y YMCA ar 23 Chwefror 2010.

2.47 Er bod cylch gorchwyl a phwerau AGIC i wneud argymhellion yn cwmpasu'r Gofal Iechyd a Chymdeithasol a dderbyniodd Mr J yn unig, rydym o'r farn y dylid nodi sylwadau ynglŷn â pheth o'r ymgysylltiad a gafodd Mr J â'r heddlu a'r Gwasanaeth Prawf. Yn benodol:

- Roedd diffyg eglurder ynglŷn â statws gwarant arestio Mr J. Ar fwy nag un achlysur collwyd cyfleoedd i ddod â Mr J yn ôl dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf neu'r llysoedd. Y mwyaf amlwg o'r rhain oedd pan gafodd ei ryddhau o Ysbyty'r Eglwys Newydd ym mis Mai 2009 a phan aeth Mr J i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys ym mis Tachwedd 2009 a'i gyfnod wedi hynny yn Hostel y YMCA.
- Roedd y Gwasanaeth Prawf a'r heddlu yn gwybod lle'r oedd Mr J cyn iddo gael ei dderbyn i Ysbyty'r Eglwys Newydd, yn ystod ei gyfnod yn yr ysbyty ac eto ym mis Rhagfyr 2009 pan gysylltodd Hostel y YMCA â'r Gwasanaeth Prawf.
- Gallai'r ffaith na hysbyswyd y Gwasanaeth Prawf bod Mr J wedi ei ryddhau o Ysbyty'r Eglwys Newydd am 24 awr, olygu bod cyfle arall wedi ei golli i ymgysylltu â Mr J.
- Ni chafodd Mr J ei atgyfeirio i'r Nyrs Seiciatrig Gymunedol gan y Gwasanaeth Prawf gan fod cyfreithiwr Mr J yn bwriadu trefnu iddo dderbyn asesiad seiciatrig.
- Roedd amwysedd ynglŷn â sut y caniatwyd i Mr J adael yr hostel a byw gyda Mrs A cyn y drosedd berthnasol gan nad oedd y llys wedi derbyn y newid i'r cyfeiriad mechnïaeth ar yr adeg honno.

Perthynas Mr J a Mrs A

2.48 Cyfarfu Mr J a Mrs A am y tro cyntaf ym mis Mai 2009 pan dderbyniwyd y ddau i Ward 2 y Dwyrain yn Ysbyty'r Eglwys Newydd. I ddechrau, roedd Mr J a Mrs A yn rhan o'r grŵp o gleifion a fyddai'n ymgasglu ac yn cymdeithasu'n rheolaidd ar y ward. Ar adegau roedd y staff wedi sylwi ar Mr J a Mrs A gyda'i gilydd yn sgwrsio. Mae'n ymddangos nad oedd y berthynas rhwng Mr J a Mrs A yn pryderu'r staff a'u bod o'r farn bod eu perthynas, yn ystod cyfnod Mr J yn Ysbyty'r Eglwys Newydd, yn briodol.

2.49 Parhaodd y berthynas rhwng Mr J a Mrs A ar ôl iddo gael ei ryddhau o Ysbyty'r Eglwys Newydd ar 14 Mai 2009; ond mae'n ymddangos nad oedd staff nyrsio Ysbyty'r Eglwys Newydd a'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a oedd yn gofalu am Mrs A yn ymwybodol o natur perthynas Mr J a Mrs A. Nid oedd y rhan fwyaf o'r staff hyd yn oed yn ymwybodol eu bod yn cysylltu â'i gilydd y tu allan i'r ysbyty.

2.50 Er bod cyd gleifion wedi awgrymu wrth y staff bod Mr J o bosibl yn byw yng nghartref Mrs A pan oedd hi yn Ysbyty'r Eglwys Newydd (28 Ebrill 2009 tan 22 Mehefin 2009) mae'n ymddangos na chofnodwyd y sŷon hyn yn nodiadau meddygol Mrs A. Yn yr un modd, er y nodwyd yng nghofnodion Mrs A ei bod wedi enwebu Mr J yn berthynas agosaf iddi ar ôl bod yn adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Athrofaol Cymru ym mis Mehefin 2009, ni chafodd hyn ei gwestiynu gan fod Mr J wedi llofnodi'r cofnod dan ei enw newydd, ar ôl ei newid trwy weithred newid enw ym mis Mehefin 2009. Roedd y staff yn ei adnabod wrth ei enw blaenorol sef KA sy'n ein harwain i gredu nad oedd rhai o'r staff wedi sylweddoli pwy oedd ar yr adeg honno.

2.51 Mae'n ymddangos bod Mr J wedi cadw mewn cysylltiad â Mrs A yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2009 a mis Ionawr 2010 a byddai'n ymweld â'i chartref yn achlysurol i fynd â'i chi am dro, yn cyfarfod mewn lleoliadau niwtral ac yn mynd i grŵp ioga Mrs A.

2.52 Pan oedd yn glaf mewnol yn Ysbyty'r Eglwys Newydd, byddai Mrs A yn siarad â'r staff nyrsio a'r Seicolegydd am '*ffrind*' o'r enw John. Er hyn, ni sylweddolodd y staff nyrsio a chlinigol yn Ysbyty'r Eglwys Newydd mai Mr J oedd y ffrind hwn, eto o bosibl gan ei fod wedi newid ei enw ym mis Mehefin 2009, yn hytrach na defnyddio'i enw geni sef KA, yr enw yr oedd yn ei ddefnyddio pan yr oedd yn glaf mewnol yn Ysbyty'r Eglwys Newydd. Ni chofnodwyd dim o hyn yng nghofnodion meddygol Mrs A.

2.53 Ymwelodd Mr J â Mrs A ar Ward 2A y Dwyrain ar 21 Chwefror 2010 (y penwythnos cyn y drosedd berthnasol) ac aeth gyda Mrs A i'r ganolfan ddydd gyda chaniatâd y staff nyrsio. Nodwyd bod Mrs A, yn ystod yr wythnos a arweiniodd at y drosedd berthnasol, wedi sôn am '*ffrind*' a oedd yn symud i'w chartref a'i bod yn edrych ymlaen at hyn. Nid oedd y newyddion hyn yn pryderu'r staff nyrsio gan ei bod yn ymddangos, yn eu barn nhw, bod y '*ffrind*' hwn yno i roi cefnogaeth iddi.

2.54 Ar 23 Chwefror 2010, gwnaeth Mr J gais i'r llys i newid ei fan preswyllo o hostel y YMCA i gartref Mrs A yn ardal Thornhill o Gaerdydd. Nid yw'n amlwg a gymerwyd unrhyw gamau ynglŷn â hyn, gan na chysylltodd y Gwasanaeth Prawf na'r cyfreithiwr â Mrs A i sicrhau ei bod yn cytuno i Mr J symud i fyw gyda hi. Er hyn, mae'n ymddangos o gofnodion y YMCA bod Mr J wedi symud allan o'r hostel ar 23 Chwefror.

2.55 Fel y nodwyd eisoes, mae'n ymddangos bod diffyg eglurder a gwybodaeth ynglŷn ag union natur perthynas Mr J a Mrs A. Er bod sŷon bod Mr J a Mrs A wedi parhau i gysylltu â'i gilydd ar ôl iddo gael ei ryddhau o ysbyty'r Eglwys Newydd ym mis Mai 2009 a'i fod yn byw yng nghartref Mrs A o bryd i'w gilydd, ni chofnodwyd dim o'r wybodaeth hon yng nghofnodion meddygol Mrs A. Pan ofynnwyd i Mrs A am statws ei pherthynas â Mr J, dywedodd mai perthynas blatonig yn unig ydoedd.

2.56 Nododd y staff, pe byddai pryderon wedi bod ganddynt am berthynas Mr J a Mrs A yn ystod eu hamser fel cleifion mewnol yn Ysbyty'r Eglwys Newydd, y byddai camau priodol wedi eu cymryd i'w gwahanu ac i reoli'r sefyllfa. Er hyn, pan ryddhawyd Mr J, ystyrid nad oedd yn dioddef o salwch meddwl bellach ac nid oedd yn glaf i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Yn y cyfamser, ystyrid bod gan Mrs A y

gallu i wneud ei phenderfyniadau ei hun; er y credid bod Mrs A yn fwy agored i niwed yn ystod cyfnodau pan oedd yn sâl, nid oedd hyn i'r graddau bod unrhyw bryderon wedi'u codi am ddiogelwch Mrs A a'i chyfeillgarwch â Mr J.

2.57 Rydym yn pryderu ei bod yn ymddangos y bu 24 awr o oedi cyn gwneud dim ynglŷn â'r ffaith nad oedd Mrs A wedi dychwelyd i Ysbyty'r Eglwys Newydd. Mae tystiolaeth bod Mrs A wedi bod yn agored i alcohol a hunan-niweidio, ar ôl cael mynd adref am gyfnodau yn flaenorol. Er hyn, pan fethodd Mrs A â dod i'r grŵp rheoli hwyliau ar 1 Mawrth 2010, ymgesiodd staff gysylltu gyda Mrs A dros y ffôn yn aflwyddiannus, ond ni threfnodd y staff archwiliad lles tan 2 Mawrth 2010.

2.58 I gasglu, rydym o'r farn:

- Bod dim mwy y gallai'r staff nyrsio fod wedi'i wneud pan oedd Mr J a Mrs A yn gleifion mewnol gan eu bod yn ystyried eu perthynas yn un briodol ar yr adeg honno.
- Bod posibilrwydd y gallai'r newid i enw Mr J fod wedi achosi dryswch, gan olygu na wnaeth y staff nyrsio a chlinigol sylweddoli mai Mr J oedd *'ffrind'* Mrs A mewn gwirionedd.
- Bod amwysedd ynglŷn â natur y berthynas rhwng Mr J a Mrs A a pha mor aml yr oeddent mewn cysylltiad. Er ei bod yn ymddangos bod rhai o'r staff yn ymwybodol yn gyffredinol bod perthynas rhyngddynt, ni chofnodwyd y wybodaeth hon erioed yn nodiadau meddygol Mrs A ac felly ni chafodd ei hystyried yn rhan o'i hasesiad risg hi na'i chynnwys yn ei threfniadau cynllunio gofal.
- Er bod rhai o'r staff nyrsio a'r clinigwyr a oedd wedi gofalu am Mrs A yn ystyried y gallai Mrs A fod yn agored i niwed yn ystod cyfnodau o fod yn sâl, nid oedd y pryder hwn yn ddigonol i'w hysgogi i gymryd unrhyw gamau, ynddo'i hun nac yng nghyd-destun perthynas amlwg â Mr J.
- O ystyried nad oedd Mr J bellach yn glaf i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl a'i fod wedi derbyn diagnosis nad oedd ganddo salwch meddwl y gellid ei drin, yn ogystal â'r ffaith yr ystyrir bod Mrs A yn gallu gwneud ei phenderfyniadau ei hun, pe byddai'r staff wedi bod yn llwyr ymwybodol o union natur y berthynas rhwng Mr J a Mrs A, mae'n parhau i fod yn

aneglur pa gamau penodol y byddai'r staff iechyd wedi gallu eu cymryd ynglŷn â'r berthynas.

- Roedd yn peri pryder na chymerodd y staff gofal iechyd gamau i ddarganfod lle'r oedd Mrs A ar 1 Mawrth 2010 am 24 awr, gan geisio cysylltu â hi ar y ffôn yn unig. Rydym yn cwestiynu a ddylai'r risgiau blaenorol o ran hanes Mrs A o hunan-niweidio fod wedi sbarduno'r staff iechyd i gymryd camau pendant yn gyflymach.

Pennod 3 Argymhellion

Cyfathrebu

3.1 Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer sicrhau cyfathrebu da yn fewnol, ac adolygu ar y cyd y protocolau rhannu gwybodaeth rhyngddynt hwy ac asiantaethau eraill er enghraifft yr heddlu a'r Gwasanaeth Prawf, i sicrhau y rhennir gwybodaeth ynglŷn â rhyddhau claf sy'n destun gwarant arestio neu oruchwyliaeth gan y gwasanaeth prawf ac y gwneir gwaith ar y cyd wrth ryddhau claf o ysbyty.

3.2 Rhaid i'r holl wasanaethau statudol adolygu eu proses ar gyfer rhannu gwybodaeth am unigolion a dderbynnir i uned iechyd meddwl ac sy'n destun gwarant arestio.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

3.3 Dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sicrhau bod asesiadau risg wedi'u sefydlu bob amser yn rhan o'r broses cynllunio gofal, a'u bod yn cael eu defnyddio i gyfrannu'n llawn at y cynllun triniaeth a gofal a'r broses o reoli claf²⁵.

3.4 Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r broses o symud cleifion o un ward i un arall, i sicrhau bod cleifion yn cael eu symud yn briodol, mewn modd di-dor ac integredig, ac y darperir gofal wedi ei gydgyssylltu i gleifion bob amser.

3.5 Dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sicrhau y darperir ar gyfer gweithredu rhaglen hyfforddi drwyadl, ddwys a pharhaus i'w staff Iechyd Meddwl ynglŷn ag anhwylder personoliaeth. Dylai'r holl staff dderbyn hyfforddiant sylfaenol, a dylid cynnig hyfforddiant uwch i'r aelodau o staff, gan gynnwys uwch glinigwyr, sydd ag angen hynny.

²⁵ Dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyfeirio at argymhelliad blaenorol a nodwyd yn Adroddiad yr Adolygiad ynglŷn â Ms A a darpariaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn dilyn Lladdiad a Gyflawnwyd ym mis Hydref 2005. Cyhoeddwyd yr Adroddiad ym mis Mai 2008, Pennod 3, Paragraff 2 (b), Paragraff 3 (d).

3.6 Dylai Gwasanaethau Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ystyried eu prosesau ar gyfer asesu priodoldeb perthynas rhwng cleifion.

3.7 Dylai Gwasanaethau Iechyd Meddwl y Bwrdd Iechyd sicrhau y gwneir trefniadau, pan geisir barn fforensig, i wneud yn siŵr y derbynnir ymateb prydlon gan seiciatrydd â hyfforddiant fforensig.

3.8 Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion sydd wedi derbyn diagnosis o anhwylder personoliaeth yn unol â chanllawiau NICE²⁶; ni ddylai pobl sydd wedi derbyn diagnosis o anhwylder personoliaeth gael eu heithrio o unrhyw wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol oherwydd eu diagnosis.

3.9 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau y cynhelir archwiliadau lles ar frys os bydd cleifion wedi mynd adref am gyfnod, ac heb ddychwelyd i'r ward erbyn yr amser a'r dyddiad y'u disgwylir, yn unol â lefel y risg sy'n berthnasol i'r claf.

Trefniadau ar gyfer y Gwasanaeth Prawf a'r Heddlu

3.10 Dylai'r Gwasanaeth Prawf ystyried ei drefniadau i ddarparu hyfforddiant digonol i'r staff ym maes iechyd meddwl.

3.11 Dylai'r Gwasanaeth Prawf ystyried adolygu'r broses ar gyfer atgyfeirio cleientiaid y mae'n ymddangos bod ganddynt broblemau iechyd meddwl i'r gwasanaethau iechyd.

3.12 Dylai'r Gwasanaeth Prawf a'r Heddlu ystyried adolygu eu prosesau ynglŷn â statws gwarant arestio. Yn benodol, dylent sicrhau eglurder o ran statws gwarant a rhannu gwybodaeth ar y cyd.

²⁶ Gweler: <http://www.nice.org.uk/nicemedia/pdf/CG78NICEGuideline.pdf>.

Llywodraeth Cymru

3.13 Wrth adolygu trefniadau Cymru gyfan ar gyfer gofal, triniaeth a rheolaeth pobl sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl, dylid ymdrin ag anghenion y bobl hynny sy'n dioddef o anhwylder personoliaeth²⁷. Dylai Llywodraeth Cymru gyfeirio at yr argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad ynglŷn â Ms A a Darpariaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn dilyn Lladdiad a Gyflawnwyd ym mis Hydref 2005, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2008 a nodi'r problemau tebyg sy'n ymddangos yn yr achos hwnnw.

3.14 O ystyried y materion sy'n codi yn yr achos hwn, dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl sydd ar gael i unigolion a ystyrir yn ddigartref neu heb gartref sefydlog, a dylid rhoi sylw penodol i'r rhai hynny nad ydynt yn fodlon cofrestru gyda meddyg teulu.

²⁷ Dylai Llywodraeth Cymru gyfeirio at argymhellion a nodwyd mewn adroddiadau blaenorol; Adroddiad ynglŷn â Ms A a Darpariaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn dilyn Lladdiad a Gyflawnwyd ym mis Hydref 2005, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2008, Pennod 3, Paragraff 1; Adroddiad ynglŷn â Mr C a Darpariaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn dilyn Lladdiad a Gyflawnwyd ym mis Hydref 2006, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2008, Pennod 3, Argymhelliad 14.

Atodiad A

Cylch gorchwyl yr adolygiad

ADOLYGIAD ARBENNIG AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU O'R GOFAL A'R DRINIAETH A DDARPARWYD I Mr J

Bydd adolygiad AGIC yn:

- Ystyried y gofal a ddarparwyd i Mr J cyn belled yn ôl â'i gysylltiad cyntaf â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn cael dealltwriaeth o'r digwyddiad angheuol a ddigwyddodd rhwng 28 Chwefror 2010 a 2 Mawrth 2010, a'i gefndir.
- Ystyried y gofal a ddarparwyd i Mrs A cyn belled yn ôl â'i chysylltiad cyntaf â Mr J pan oedd dan ofal Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn cael dealltwriaeth o'r berthynas rhwng Mr J a Mrs A hyd at y digwyddiad angheuol.
- Adolygu'r penderfyniadau a wnaed o ran gofal Mr J.
- Adolygu'r penderfyniadau a wnaed o ran gofal Mrs A a'r berthynas a ddilynodd gyda Mr J.
- Nodi unrhyw newid neu newidiadau yn ymddygiad ac ymarweddiad Mr J a gwerthuso pa mor ddigonol oedd unrhyw asesiadau risg a chamau cysylltiedig a gymerwyd yn arwain at y digwyddiad a ddigwyddodd rhwng 28 Chwefror a 2 Mawrth 2010.
- Paratoi adroddiad a fydd ar gael i'r cyhoedd sy'n nodi'r canfyddiadau perthnasol ac argymhellion ar gyfer gwella;
- Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu cynllun(iau) gweithredu er mwyn sicrhau y dysgir gwersi o'r achos hwn²⁸.

²⁸ Fel rhan o'r ymarfer hwn ystyrir hanes personol Mr J hefyd.

Atodiad B

Adolygiad o Wasanaethau Iechyd Meddwl yn dilyn Lladdiadau a Gyflawnwyd gan Bobl a oedd yn Defnyddio Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Yng Nghymru a Lloegr, cyflawnir tua 57 o laddiadau'r flwyddyn gan bobl a oedd yn dioddef o salwch meddwl ar adeg y drosedd. Mae hynny'n 10% o'r achosion o lofruddiaeth a dynladdiad yr ymdrinnir â hwy yn ein llysoedd. Mae tua 10% o'r holl bobl a gafwyd yn euog o laddiad bob blwyddyn wedi bod mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl yn ystod y 12 mis cyn y drosedd²⁹.

Wrth reswm, mater i'r system cyfiawnder troseddol yw sicrhau y cynhelir ymchwiliadau ac y gwneir dyfarniadau ynglŷn â'r lladdiadau hynny. Fodd bynnag, mae'n briodol hefyd fod pob digwyddiad yn cael ei archwilio o safbwynt y gwasanaethau a sefydlwyd i ddarparu gofal a thriniaeth ar gyfer y rheini sy'n profi problemau iechyd meddwl. Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi disgwyl bod adolygiad allanol annibynnol yn cael ei gynnal ynglŷn â phob achos o laddiad a gyflawnwyd gan unigolyn sydd â hanes o gysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl.

Mae adroddiadau'r adolygiadau allanol annibynnol yn cyfrannu at y broses ehangach a drefnir dan nawdd yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) i adolygu pob lladdiad o'r fath yn y DU. Cynhelir y broses honno gan yr Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Hunanladdiad a Dynladdiad gan Bobl â Salwch Meddwl.

Y Trefniadau ar gyfer Adolygiadau yng Nghymru

Hyd at 2007, câi adolygiadau allanol annibynnol o laddiadau gan bobl â phroblemau iechyd meddwl eu comisiynu gan Fyrddau Iechyd Lleol. Cynhelid yr ymchwiliadau eu hunain gan dimau adolygu a ffurfiwyd o sefydliadau iechyd trydydd parti neu drwy gomisiynu o'r sector annibynnol.

²⁹ Adroddiad Blyneddol yr Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Hunanladdiad a Dynladdiad gan Bobl â Salwch Meddwl, Gorffennaf 2011.

O fis Ionawr 2007 ymlaen, bydd yr holl adolygiadau allanol annibynnol o'r achosion hyn yn cael eu cynnal gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Pan fo'r gwasanaethau a adolygir yn cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, gwneir trefniadau i gynnwys arolygwyr gwasanaethau cymdeithasol o Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn y tîm adolygu.

Atodiad C

Y Trefniadau ar gyfer adolygu Gwasanaethau Iechyd

Meddwl o ran Mr J

Mae adolygiadau ac ymchwiliadau gan AGIC yn defnyddio'r dulliau, y technegau a'r sgiliau a fydd yn fwyaf effeithlon ac effeithiol yn unol â natur y mater sydd i'w ymchwilio, ei helaethrwydd ac unrhyw gyfyngiadau o ran amser neu adnoddau eraill. Fodd bynnag, mae AGIC yn cydnabod pwysigrwydd ymchwiliadau strwythuredig, ac mae'n ymroddedig i ddefnyddio *'Dadansoddiad o Wraidd y Broblem'* (RCA) i ddarparu strwythur ffurfiol ar gyfer ymchwiliadau. Gellid addasu'r strwythur hwnnw os yw'r amgylchiadau'n golygu bod hynny'n briodol. Wrth gynnal yr adolygiad hwn, mae AGIC wedi sicrhau y dilynwyd yr egwyddorion cyffredinol sy'n berthnasol i ymchwilio ac y mae'r RCA yn darparu canllawiau ar eu cyfer. Mae hefyd wedi defnyddio nifer o'r dulliau sydd wedi eu cynnwys yn yr RCA.

Yn ei chais i AGIC ymgymryd â'r adolygiad hwn, nododd Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bod yn cefnogi dull adolygu a fyddai'n defnyddio'r RCA.

Mae'r RCA yn cyfuno llawer o'r arferion gorau sy'n cyfrannu at brosesau ymchwilio. Trwy ddefnyddio'r RCA, gellir nodi'r hyn sydd wrth wraidd canlyniad nas dymunir, a chynllunio camau gweithredu i'w atal rhag digwydd eto neu i wneud hynny'n llai tebygol. Mae dadansoddiad o wraidd y broblem yn ymwneud â systemau, ac yn adolygu trwy barhau i balu i lawr trwy'r rhesymau canfyddedig dros ddigwyddiad nes y bydd ffactorau cyfundrefnol gwreiddiol wedi eu nodi neu nes yr archwiliwyd y data i gyd.

Datblygwyd yr RCA ym maes peirianneg, ac mae'n helpu gweithwyr proffesiynol mewn ystod eang o sefyllfaoedd, a allai fod yn anghyfarwydd â dulliau ymchwilio, i bennu'r hyn a ddigwyddodd, sut y digwyddodd a pham y digwyddodd. Mae wedi ei gynllunio i annog sefydliadau i ddysgu o broblemau, methiannau a damweiniau'r

gorffennol ac i ddileu neu addasu systemau er mwyn atal digwyddiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol. Mae'n darparu patrymlun ar gyfer pobl nad ydynt yn ymchwilwyr proffesiynol, gan sicrhau dull ymchwilio systematig yn seiliedig ar arfer ymchwilio da. Ar gyfer y rheini sy'n fwy profiadol, mae'n rhoi rhestr ddefnyddiol o gamau ymchwilio angenrheidiol ac yn darparu pecyn o dechnegau sydd wedi bod yn llwyddiannus yn y gorffennol wrth ddatgelu'r achosion sylfaenol wrth wraidd digwyddiadau. Addaswyd yr RCA i'w ddefnyddio yn y GIG gan yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion.

Cychwynnodd yr ymchwiliad hwn trwy nodi'r math o arbenigedd y byddai ei angen i ymgymryd â'r adolygiad. Sefydlwyd tîm adolygu a oedd yn darparu'r ystod o sgiliau a gwybodaeth yr oedd eu hangen. Roedd y tîm yn cynnwys:

Dr Jane Mounty – Seiciatrydd Ymgynghorol

Mr John Murphy – Nyrs Gyswilt Seiciatrig

Mrs Ann Jenkins – Adolygwr Lleyg

Mr Rhys Jones – Pennaeth Ymchwiliadau

Mr Leigh Dyas – Rheolwr Ymchwiliadau Cynorthwyol

Cynhaliwyd y cam o'r adolygiad a oedd yn cynnwys casglu gwybodaeth rhwng mis Ebrill 2010 a mis Ionawr 2011. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- Archwilio dogfennau'n ymwneud â'r modd yr oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r Gwasanaeth Prawf yn trefnu ac yn darparu gwasanaethau. Er nad oes gennym yr awdurdod i fynnu gwybodaeth gan yr heddlu, cafodd y tîm adolygu hefyd weld cofnodion yr heddlu yn ymwneud â'r achos a chynnal trafodaeth â'r uwch swyddog ymchwilio. Rydym yn ddiolchgar i'r heddlu am eu cydweithrediad.
- Darllen y nodiadau achos a gedwid gan y Bwrdd Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Awdurdodau Lleol ynglŷn â Mr J.
- Darllen nodiadau cyfweiliad a datganiadau ysgrifenedig a ddarparwyd gan staff a oedd yn gweithio gyda Mr J a Mrs A fel rhan o brosesau ymchwilio mewnol neu brosesau ymchwilio'r heddlu.

- Cyfweld pobl allweddol, yn enwedig pobl â chyfrifoldeb strategol am ddarparu gwasanaethau.

Proseswyd y wybodaeth gan uned archwilio fewnol AGIC. Yn ogystal â hyn, darllenodd pob aelod o'r tîm adolygu yr holl ddeunydd a gynhyrchwyd gan yr adolygiad. Datblygwyd y cam dadansoddi gan y tîm adolygu. Darparodd adolygwyr sy'n gymheiriaid eu dadansoddiad cychwynnol eu hunain o'r materion allweddol. Yn dilyn hynny, cyfarfu'r tîm adolygu i ymgymryd â dadansoddiad trylwyr, gan gyfeirio ei ystyriaeth trwy'r materion allweddol i'r achosion sylfaenol wrth wraidd y broblem gan ddefnyddio'r technegau hynny a ddatblygwyd o'r elfennau RCA a luniwyd gan yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion. Canlyniad y broses honno oedd pennu i ba raddau y gellid sefydlu systemau neu brosesau i atal digwyddiadau pellach a natur y systemau neu'r prosesau hynny. Amlinellir canlyniadau'r cam hwnnw yn yr adroddiad hwn fel canfyddiadau ac argymhellion.

Atodiad Ch

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer pob gwasanaeth gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar:

- Wneud cyfraniad sylweddol i wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru pa un ai fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu weithiwr.
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd yr adolygir gwasanaethau iechyd.
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, berthnasol a rhwydd cael gafael arni am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Swyddogaeth graidd AGIC yw adolygu ac archwilio sefydliadau'r GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn darparu sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd, Llywodraeth Cymru a darparwyr gofal iechyd bod gwasanaethau yn ddiogel ac o ansawdd da. Adolygir gwasanaethau yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau cyhoeddedig. Yn rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau a'r camau sydd eu hangen i gyflawni hyn. Os bydd angen, bydd AGIC hefyd yn cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig lle y mae'n ymddangos bod diffygion systematig wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, er mwyn sicrhau bod modd gwella a dysgu yn gyflym. Yn ogystal, AGIC yw rheoleiddiwr darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, a'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer Goruchwyliaeth Statudol Bydwagedd.

Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac, er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae protocolau wedi eu sefydlu i ddiogelu ei hannibyniaeth weithredol. Mae prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC yn deillio o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.
- Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig.
- Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Iechyd Meddwl 2007.
- Goruchwyliaeth Statudol Bydwagedd fel y'i nodir yn Erthyglau 42 a 43 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.
- Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a Rheoliadau Diwygio 2006.

Mae AGIC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill wrth gynnal adolygiadau traws-sector ym maes gofal cymdeithasol, addysg a chyfiawnder troseddol, ac wrth ddatblygu dulliau mwy cymesur a chydgyssylltiedig o adolygu a rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru.